


ECO'R WYDDFA

Cwpan i Hogia'r Waun



Trowch i'r ddalen gefn i gael yr hanes.

Rhif 268

MEHEFIN 2000

Pris 40c

Gŵyl Fai yr Antur



Lleisiau Lliwedd

Mae parti Lleisiau Lliwedd o Lanberis wedi bod yn brysur eto eleni. Yn ddiweddar buont yn diddori aelodau Sefydliad y Merched yn Niwbwrch, ym Mhlas Gwilym Penygroes, Canolfan Maesincla Caernarfon a Chlwb y Crydcymalau.

Buont hefyd yng Ngwesty'r Bulkeley Arms ym Miwmares ac yng Nghwesty'r Fictoria yn Llanberis yn canu i'r ymwelwyr. Hefyd cynhaliwyd bingo noddedig ganddynt. Bu rhai o aelodau'r parti hefyd yn cymryd rhan yn y cantata 'Gloddest Bywyd' a berfformiwyd yn Eglwys Sant Padarn nos Sul y Pasg.

Mae'r parti'n dal i gyfrannu'n hael i gronfeydd elusennol. Eleni rhoddwyd £50 i Gronfa Llifogydd Mosambique; £50 i Gronfa Argyfwng Croatia; £50 i Fand Ieuencid Llanberis a £100 i Gronfa Steffan Price, Llanrug.

Cafodd tair aelod o'r côr y fraint o fynd i Hosbis Dewi Sant yn Llandudno yn ddiweddar i gyflwyno sic eic am £200 at yr achos hwnnw a chawsant groeso mawr. Mae'r Hosbis, a agorwyd flwyddyn yn ôl gan y Tywysog Charles, yn adeilad hardd iawn ac mae pob cyfleuster ynddo ar gyfer y cleifion. Ond dim ond arian i gynnal y lle am dri diwrnod o'r wythnos sydd

Jac y fwe hefo rhai o'r plant yng Ngŵyl Fai Antur Waunfawr.

cleifion llawn amser gwaetha'r modd. Felly mae angen dybryd arnynt am arian i'w galluogi i gyflogi gweinyddion ac yn y blaen. Cofiwch amdanynt.



Arweinydd Parti Lleisiau Lliwedd, Mrs Mattie Hughes, yn cyflwyno sic eic i Sue, gweinyddes yn adran Gofal Dydd, Hosbis Dewi Sant. Gyda hwy mae Mrs Delyth Hughes a Miss Dilys Mai Roberts.

Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail

Cafodd Safle'r We Ysgol Brynrefail ei arsefydlu gan un o ddisgyblion bl.12, Brynley Salisbury tra roedd ar ei brofiad gwaith gyda chwmni Cynnal, ac mae gwybodaeth am ddigwyddiadau y canmlwyddiant ar gael yno.

Mae llyfr ymwelwyr ar agor i dderbyn eich negeseuon a hyderwn y cawn lawer ohonynt o bell ac agos, gan gynnwys ddisgyblion ac athrawon yr hen ysgol ym mhentref Brynrefail a'r ysgol newydd ym mhentref Llanrug.

Y cyfeiriad yw: <http://www.brynrefail.gwynedd.sch.uk>

Bydd yn amser penigamp i ail adnabod hen ffrindiau ac i daro sgwrs gyda hwn a'r llall. Cysylltwch â'r ysgol drwy godi'r ffôn (01286) 672381 neu ar safle'r We.

A oes gennych luniau diddorol a fyddai o ddiddordeb? Efallai bod gennych lun o'r ysgol gyfan ar ôl 1966? Neu Gadair Eisteddfod yr Ysgol y gallwn ei benthyca i'w rhoi mewn arddangosfa. Ewch ati i chwilio a chwilota a chysylltwch â'r ysgol.

Byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

ECO'R WYDDFA

Rhif 268
MEHEFIN 2000

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
(871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

MEHEFIN 29

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

MEHEFIN 19

Os gwelwch yn dda.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu A
GORFFENNAF AWST	MEHEFIN 19	MEHEFIN 29	BETHEL	Mr Geraint Elis
MEDI	AWST 28	MEDI 7	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 18	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 16	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James

Llythyrau

Atgo am Ddinorwig

Annwyl Ddarllenwyr,
'Cenawon amser wedi cyfarth dy
braidd', medd y bardd am
Gwauncwmbrynog. O fewn
dyffryn Padarn, gellir ychwanegu
at Hebron enwau amryw o
achosion crefyddol sydd wedi
diflannu. Yn eu plith (ag enwi
ond rhai un enwad yn unig)
enwau i'w cofio bellach yw:

Y Clegir, Gorffwysfa a
Phreswylfa; Cwm-y-glo,
Ceunant a Thanycod; Capel
Mawr Llanrug, Nasareth, y
Glasgoed; Ysgoldy, Disgwylfa a'r
Fachwen.

Yn y Sasiwn ym Mhwillheli ar
Fai 8 deall bod yr achos yn
Ninorwig i'w ychwanegu at y
rhestr, a deall gan gyfaill fod
sylwadau i'r perwyl yn 'Eco'r
Wyddfa' am fis Mai. Ar ôl eu
darllen, dylifodd atgofion lawer.
Fel y crybwyllir yn yr Eco, y
gweinidog yn Ninorwig a'r
Fachwen oedd y Parchedig Ieuan
Bryn Williams, B.A., a'r ardal yr
un mor ddyledus i'w briod
gerddgar, Mrs Beryl Bryn
Williams am arwain mewn
cymantfaoedd, am feirniadu
mewn eisteddfodau ac am
hyfforddi partion ac unigolion,
ac am ei gwaith adref yn yr
eglwys.

Roeddwn i yn yr ysgol yn
Ninorwig gyda'u plant, Iwan
Prys (y Seryddwr), Angharad
Gwyn a Bethan Bryn (y
delynores), a diddorol i mi fu
cael dilyn Ieuan Bryn Williams

fel gweinidog yr Efengyl yn ardal
Cyffylliog, Dyffryn Clwyd, dros
ugain mlynedd yn ôl, lle y
mwynheais lawer atgof gan y
teulu annwyl am ru rhodiad yn
Ninorwig a'r Fachwen.

Ar ôl iddi ymddeol o'i swydd
gyfrifol fel arolygydd yn adran
Radioleg, Ysbyty Glan Clwyd,
cawsom yng nghapel ac ardal
Cyffylliog fanteisio ar
bresenoldeb a doniau Angharad
a hynny ar ei dychweliad wedi
marwolaeth ei thad, i fod gyda'i
mam. Ar ôl colli ei mam yn
1993, symudodd Angharad i
Aberystwyth i fod yn nes at ei
chwaer, Bethan a'r teulu, a
chollodd enbyd i ni yng
Nghyffylliog fu'r symudiad. Deil
amryw o'n haelodau mewn
cysylltiad cyson ag Angharad, ac
ymfalchiwn yn y llwyddiant a
ddaeth iddi gyda'i chwr ym
Mhrifysgol Aberystwyth yn y
Gymraeg. Y mae hefyd ers
blynyddoedd wedi bod yn fawr
ei chyfraniad i fudiad y
Samariaid mewn gwahanol
gylchoedd.

Diau fod amryw ym mro'r Eco
yn dal i gofio'r teulu talentog,
ond ychydig a feddyliwn i yn ôl
yn y pumdegau, tra'n fachgen yn
y Fachwen, yn cicio pêl hefo
Iwan Prys ar iard yr ysgol yn
Ninorwig, mai fi, ymhnen deugain
mlynedd a fyddai'n arwain yng
ngwasanaeth angladd y ddau o'i
rieni, a hynny fel olynydd i'w dad
yng Nghyffylliog.

Chwithdod mawr i'r ddau, reit
siŵr, fyddai clywed fod yr achos
yn Ninorwig wedi dod i ben, a fu
unwaith, medd yr hanes,
'ymhlith y mwyaf grymus a
llewyrchus yn Arfon i gyd'.

Manteisiaf ar y cyfle i
ddymuno'n dda i'r aelodau sy'n
aros, yn eu cartrefi ysbrydol
newydd, ac i eglwysy'r fro, ac i
Henaduriaeth Arfon, sydd wedi
sylweddoli mewn pryd mor
bwysig yw 'dwyn calonnau
ynghyd, os nad y pebyll'.

Gyda chofion cywir
TUDUR ROWLANDS
(gynt o Fachwen)

Y Rhewl, Rhuthun

Annwyl Olygydd,

A gaf fi fynegi fy marn ar y
posiblirwydd o fynd a'r
Eisteddfod Genedlaethol i
Lerpwl. Yr oeddwn i yno yn
1929 ac eisteddfod wych oedd hi
hefyd. Yr oedd llawer eisteddfod
ar Lannau Mersi yn ystod y
blynyddoedd yr oeddwn i yn byw
yno.

Cofiaf Eisteddfod Lewis's, ac
fel y byddwn yn picio yno a byw
ar fyns yn fy awr ginio, ond nid
er mwyn yr eisteddfod y cafwyd
y gwahoddiad. Denu Cymry i'r
siop i wario oedd yr amcan.


Roedd yn hyfryd cael
diwylliant Cymraeg yn y ddinas.
Byddai Eisteddfod plant Bootle
yn Neuadd y Dref ar nos
Sadwrn, a'r lle yn orlawn.
Eisteddfod y Glomen Wen, a'r
Ddraig Goch a mân
eisteddfodau eraill yn y cyffiniau.
Cwmni Drama yn perfformio yn
Gymraeg ym mhob capel. Roedd
cwmni o bobl ifanc yn Eglwys
Stanley Road: hanner cant yn
perfformio Abraham Lincoln
(cyfieithiad John Drinkwater).

Bob yn ail ddy lle lletyem yr
oedd Cymry yn byw, rhai a dim
ond ychydig o Saesneg
ganddynt. Lle maent erbyn hyn?

Gwasgarodd bomiau Hitler y
gymdeithas Gymraeg, rhai i fyw
i fynyr lein fel y galwent
Southport a Blundellsands, lle
teimlent yn ddiogelach nag yn
ymyl y dociau. Llawer yn
dychwelyd i Gymru at eu
gwreiddiau, diolch am hynny.

Na, mae'n well i'r Eisteddfod
ganolbwyntio ar drefi yng
Nghymru sydd wedi
Seisnigeiddio ac, fel y dywedodd
y diweddar Barch William
Morris pan soniwyd am symud
y steddod o fan i fan yn hytrach
na'i chynnal mewn un man,
'Rhaid rhoi 'injection' o
Gymreictod i drefi Saesneg Cymru
ac nid gwastraffu ynni i'w chynnal
dros Glawdd Offa.'

G.M.J.



Beic 'di malu ac isio'i drwsio?
Mae Yncl Wil yn siŵr o blesio.
Am feiciau glân ail-law a phartiau,
Wel, yma cewch chi'r fargen orau.

Cysylltwch â W. Jones
Waunfawr (01286) 650723

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Rhagor o Arian i'r Antur

Mae Antur Waunfawr yn falch iawn o gyhoeddi eu bod am dderbyn grant o £221,380 gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol.

Bydd y grant yn ariannu cynllun banc dodrefn i ail-ddedfnyddio nwyddau gwyn (oergelloedd, poptai, peiriannau golchi a.y.y.b.) arloesol gan Wasanaeth Ailgylchu Gwynedd (adran ailgylchu Antur Waunfawr). Bydd naw person yn cael eu cyflogi ar y prosiect.

Cychwynnwyd Antur Waunfawr ym 1984 i sefydlu a chynnal nifer o weithgareddau cymunedol fyddai'n eu galluogi i ddarparu cyfleoedd gwaith ystyrlon, tymor hir i bobl gydag anableddau dysgu.

Ym 1996 sefydlwyd Cynllun Ailddedfnyddio Dodrefn. Cesglir dodrefn gan y cyhoedd, ac yna fe'i dosberthir i bobl yn dioddef o effeithiau tlodi a difreintedd megis pobl ar incwm isel a'r di-waith. Oherwydd llwyddiant ysgubol y cynllun yma daeth yn amlwg bod cleientau'r gwasanaeth angen nwyddau gwyn. Gwnaed cais i'r Loteri am arian i gychwyn Cynllun Nwyddau Gwyn, i redeg ochr yn ochr â'r gwasanaeth dodrefn presennol.

Gyda'r grant newydd bydd y Cynllun yn sefydlu canolfan arbennig yn ardal Caernarfon, gyda digon o le i dderbyn, trin ac arddangos y nwyddau. Bydd trydanwr/wraig yn cael ei ch/gyflogi i wneud gwaith archwilio a thrwsio ar y nwyddau cyn iddynt gael eu cynnig i gleientau.

Yn ogystal â chanolfan newydd yng Nghaernarfon, bydd siop newydd ar gyfer arddangos y dodrefn yn cael ei hagor ym Mangor, er mwyn galluogi mynediad i'r Cynllun i gymaint o bobl ag sy'n bosibl.

Meddai Gwynn Davies, Cadeirydd Antur Waunfawr: 'Sylfaenwyd Antur Waunfawr ar y gred fod gan bawb yr hawl a'r cyfrifoldeb i wasanaethu cymdeithas. Mae y cynllun yma, nid yn unig yn rhoi cyfle i'n

gweithwyr ymestyn ffiniau eu gweithgaredd ond hefyd yn ychwanegu at y budd y gallwn roi i'r gymuned yn gyffredinol.'

Meddai Dafydd Lewis, Cyfarwyddwr Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd:

'Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu y gefnogaeth yma i wasanaeth ailgylchu Antur Waunfawr. Mae'n ddatblygiad pellach yn eu gwasanaethau, ac yn golygu eu bod yn parhau i ymestyn eu gwaith ac yn cadw Gwynedd ar y brig mewn prosiectau ailgylchu cymunedol yng Nghymru.'

Am fwy o fanylion ar unrhyw agwedd o waith Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd holwch Huw Davies (01248) 355112 (Rheolwr), neu Menna Jones (01286) 650721 (Prif Weithredwraig Antur Waunfawr).

TRIP I GAERDYDD

Mae Parti Lleisiau Lliwedd a'u ffrindiau yn mynd i Gaerdydd eleni ar eu pen-wythnos blynyddol.

Cychwyn bore Gwener 22 hyd dydd Llun, 25 Medi.
Y daith yng ngofal Mr Gwilym Rees Parry,
Teithiau'r Grug.

Croeso i chwi ymuno â ni am hwyl a sbri.
Am ragor o fanylion cysylltwch â Gwilym ar (01286) 674530 neu Dilys ar (01286) 871758.

Gloddest Bywyd

Cafwyd gwasanaeth arbennig iawn yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis nos Sul y Pasg, Ebrill 23. Cyflwynwyd cantata fodern 'Gloddest Bywyd', cyfieithiad o 'The Feast of Life' o waith Garth Hewitt gan aelodau eglwysi'r pentref. Sioe o obaith yw hon a chafodd ei chyfieithu ar y cyd gan Mrs Susan Williams a Mr Iolo Morris Roberts. Mrs Susan Williams hefyd oedd Cyfarwyddwr Cerdd y cyflwyniad hwn.

Cyflwyniad cyd-enwadol oedd hwn a chymerwyd rhan gan y canlynol: Côr y Plant a'u

hunawdwyr: Stephanie, Carys, Elin Mai a Mared; Côr yr oedolion a'u hunawdwyr: Y Parchg Phillip Hughes, Mrs Dilys Williams, Mrs Susan Williams, Mrs Ann Parry Jones a Miss Dilys Mai Roberts; Llefarywr: Mrs Heather Jones a Mrs Valerie Jones. Cafwyd anerchiad gan Mrs Liz Perkins ar ran Cymnorth Cristnogol.

Diolch yn arbennig i'r technegydd sain, Mr Gomer Davies; i Mr Ken Jones a Mr Ralph Jones am weithio'r taflunyddion; i Mrs Sandra Hughes am y poster; i ofalwyr y drysau a'r casglyddion; i Miss Dilys Mai Roberts am yr hysbysebu; ac i bawb a gymerodd ran a rhoi o'u hamser at achos mor deilwng. Yr oedd y casgliad er budd Cymorth Cristnogol.

Ar derfyn y noson yr oedd gwledd ardderchog arall wedi ei pharatoi dan ofal Mr Gareth Jones yn festri Capel Coch i aelodau'r Cantata. Diolch i bawb a gyfrannodd y bwyd. Cyflwynodd y plant dusw o flodau i Mrs Susan Williams fel gwerthfawrogiad o'i gwaith caled yn trefnu yr achlysur. Rhoddwyd cyw bach ac wy pasg wedi eu gwneud gabn Mrs Marian Joines i'r plant.

Agor Caffi 'Blas y Waun'



Dewi Davies, Cyfarwyddwr Twristiaeth Gogledd Cymru yn agor Caffi 'Blas y Waun' yn ystod Grŵyl Fai yr Antur.

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Cronfa Goffa R.H. Owen

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

**John H. Hughes, Tan y Clogwyn
Llanberis, Gwynedd LL55 4LF**

Ffôn: (01286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn AWST 31, 2000.
Ni ystyrrir unrhyw gais a ddaw ar ôl y dyddiad cau penodedig.

Un funud fach . . .

Mae hyn yn mynd i fod yn gymhleth! Byddai'n haws egluro'r peth efo map bychan, ond does dim lle i beth felly yn y golofn hon. Ond bydd y rhai ohonoch sydd wedi bod yn yr Eisteddfod yr wythnos hon yn deall — gobeithio.

Roedd yn ddigon rhwydd cyrraedd y Maes o gyfeiriad yr A470. Ond o gyfeiriad Coleg Llandrillo y dois i. Wrth gyrraedd y Maes, chawn i ddim troi i'r dde i'r maes parcio, a bu raid mynd ymlaen am filltir at y rowndabowt ar yr A470 ac yn ôl at Faes y Steddfod o'r cyfeiriad hwnnw.

A chredech chi ddim! Yn y pnawn, a minnau eisiau mynd yn ôl i'r Coleg, chawn i ddim troi i'r chwith o Faes yr Eisteddfod! Roedd rhaid mynd i'r dde at y rowndabowt, ac yna yn ôl eto heibio'r Steddfod ac ymlaen i Landrillo.

Roedd y traffig yn ysgafn iawn wrth i mi gyrraedd a gadael y Maes, a welwn i ddim pam bod angen i mi fynd a dod at y rowndabowt o gwbl. Mi ges fy nhemtio i droi i'r dde wrth gyrraedd y Maes gan nad oedd yr un car arall ar y ffordd, ond wnes i ddim. Ac roedd presenoldeb dau blismon yng ngheg y lôn yn y pnawn yn ddigon i sicrhau na ches fy nhemtio i beidio dilyn y cyfarwyddiadau ar y ffordd allan.

Roedd y system draffig wedi ei chynllunio'n ofalus i sicrhau bod yr holl geir yn mynd a dod yn ddidrafferth. Ac er nad oedd yn hwylus i mi ddod, doedd dim posib newid y drefn. Ond yn ein bywyd bob dydd dyna a wnawn. Os nad yw deddfau Duw yn dderbyniol, rydan ni yn eu torri. Os na fedrwn ni dderbyn safonau uchel y Beibl rydan ni yn eu newid i'n siwtio ein hunain. Ond mae'r rheolau a'r deddfau yno er ein lles, yn union fel yr oedd y system draffig wedi ei chynllunio er mwyn yr Eisteddfodwyr. Mi fyddai'n draed moch petae pawb yn anwybyddu'r arwyddion ffyrdd.

JOHN PRITCHARD


Hanes y Teulu Ingham

Yn dilyn hanes y cerdyn post cyntaf o hen ysgol Brynrefail a anfonwyd yn 1905, ac a gafwyd hyd iddo gan Gareth James mewn marchnad hen bethau yn Farnham, Surrey, daeth toreh o wybodaeth am y teulu hynod yma gan nifer o bobl, gan gynnwys Heather Jones, Vicars Cross, Caer; Gruffydd Charles Morris, Bethesda; Rol Williams, Waunfawr a Jane Ceridwen Ffoulkes o Ddeiniolen (gweler rhifyn mis Mawrth o'r Eco, tudalen 19).

Mae'r hanes yn cychwyn gyda dyfodiad Morgan ac Ann Pierce Jones i fyw i Lanrug yn 1832 o Eglwysfach, Sir Aberteifi. Ymgartrefodd y ddau gyda'u saith o blant yn hen dŷ Capel Hermon. (Bu'r teulu yn ddiweddarach yn byw yn 'Ship Cottage', Stablau). Daeth dau fab yn weinidogion — Peter yn Rheithor Llanddona a Moses yn Rheithor Llanrug, ond Elizabeth, eu chwaer, a briododd i'r teulu Ingham.

Dyma fel y bu. Bu farw Morgan yn 1840 ac i helpu'r teulu gael dau ben llinyn ynghyd aeth Elizabeth i weini i Fanceinion ac yno cyfarfu â Thomas Ingham, oedd yn ŵr busnes ac yn berchen siop 'Boot and Shoe Makers'. Priodwyd y ddau ar Fawrth 8, 1860 yng Nghapel Wesle, Radnor Street yn ardal Chorlton. Wedi afiechyd symudodd y ddau yn ôl i Lanberis a chychwynnodd Thomas sawl menter busnes. Cychwynnodd siop esgidiau yn 1 a 2 Denbigh Terrace; siop groser, a bu'n berchen y Grovenor Hotel.

Yn bwysicach, cychwynnodd Thomas ac Elizabeth y mudiad Wesleidd yn Lanberis. Roedd angen tipyn o wroldeb i gychwyn achos newydd mewn ardal oedd yn frith o gapeli gan enwau eraill. 'Colofn odidog oedd Elizabeth Ingham i ras Duw gan iddi adnabod ei Gwaredwr yn gynnar yn ei bywyd.' Dyma ddywed yr Eurgrawn Wesleidd mewn teyrnged iddi yn



DRAENOG

Gwaith go hawdd i saer da yw gosod drws newydd. Ond NaNaN ddywedai un wraig o Lanberis pe dywedech hynny

wrthi. Bu'r saer a'i brentis yn pwffian, a phwffian 'TO, am bythefnos gyfan cyn llwyddo i orffen y job. Roedd digon o dŵls i hwyluso'r gwaith, ond doedd fawr o siâp ar y CELFI(n).

Nhachwedd 1922. Collodd ei gŵr Thomas yn 1890 ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanrug, yn agos iawn i'r eglwys.

Roedd gan Thomas ac Elizabeth Ingham dri o blant, Kezia, Moses a Tom. Priododd Kezia chwarelwr o'r enw John Williams a ordeiniwyd yn ddiweddarach yn weinidog yn Llanfairtalhaiarn. Cawsant dri o blant, Frank, Cecil (Geufon) ac Eirlys. Ond beth am Moses a Tom? Gwyddom i Moses gael ei anrhydeddu yn y Rhyfel Mawr 1914-18 (Atodiad V o lyfr y

Parch John Pritchard: Hanes Ysgol Sir ym Brynrefail, Arfon). Roedd Tom yn Asiant Teithio yn Lanberis ac hefyd yn mewnforio tabledi at y clefyd siwgwr bron ganrif cyn bod y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn bodoli.

Tybed ai efe, Moses, ynteu Tom, oedd tad y ferch fach, Liz, a ysgrifennodd y cerdyn post yn 1905? Oes rhywun o deulu Blaen Cae Uchaf yn gwybod?

Cysylltwch â Rhiannon ar (01286) 672215.

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
 ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
 ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
 ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Cig Bethel

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN

★
PORC LLEOL
 ★

**GWYLIWCH AM EIN PRISIAU
 ARBENNIG AM WYN LLEOL**

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

CHWILOTA

Mwy o Atgofion am Ysgol Brynrefail



Yn dilyn cais am atgofion rhai o gyn-ddisgyblion neu gyn-athrawon Ysgol Brynrefail ar gyfer y rhifynnau'n arwain at ddathlu canmlwyddiant yr ysgol, braf oedd derbyn mwy o nodiadau am gyfnod arall yn hanes yr ysgol. Y tro hwn, Ifan Wyn Williams o Langefni (gynt o Frynrefail) sy'n anfon ei atgofion am daith addysgiadol hynod a drefnwyd gan Awdurdod Addysg Sir Gaernarfon rhyw flwyddyn neu ddwy cyn i'r Ail Ryfel Byd gychwyn. Mae'n eironig braidd mai taith gan aelodau Cynghrair y Cenhedloedd i'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd oedd honno. Dyma sut mae'r diwrnod yn cael ei gofio ganddo:

Diwrnod i'w Gofio - Haf 1938

Dw i ddim yn hollol siŵr ai haf 1938 ynteu haf 1939 oedd hi pan drefnodd awdurdod addysg yr hen sir Gaernarfon drip i Gaerdydd i ddisgyblion ysgolion gramadeg y sir. Athrawes hanes yr ysgol ar y pryd oedd Miss Gwyneth Evans (miss Evans Hist). Nid yn unig yr oedd hi yn dysgu'r pwnc yn ôl traddodiad y cyfnod hwnnw, sef hynt a helynt brenhinoedd a brenhinesau Lloegr a hefyd hanes rhyfeloedd Lloegr o 1066 ymlaen, fe roddodd inni dalp go dda o hanes Cymru a hynny yn y Gymraeg ar gyfer y 'Senior'. Ar ben hyn oll roedd yn ein hannog ni'r plant i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd (League of Nations, sef rhagflaenydd yr UN). Byddem yn talu 6 cheiniog (2½c) bob tymor a chael gwisgo bathodyn lliw hufen, hirgrwn a map o'r byd amo. Badge tun salmon y galwem ni hwn. Yn achlysurol caem wers am Gynghrair y Cenhedloedd ac yn arbennig hanes heddychwyr y byd, megis yr Arglwydd Davies o Landinam a oedd wedi cyfrannu cymaint o'i gyfoeth i adeiladu rhai o neuaddau ysblennydd dinas Caerdydd, gan gynnwys y Deml Heddwch.

Oherwydd y cysylltiad hwn 9/6 ac nid 10/- oedd pris y trip i'r rhai ohonom oedd yn aelodau o Gynghrair y Cenhedloedd. Rhaid cofio hefyd mai tua £2 yr wythnos oedd isrif cyflog yn y chwarel yr adeg yma. Felly, o

edrych yn ôl roedd hi'n syndod fod fy mrawl Rol a minnau wedi gallu cael mynd.

Roedd yn rhaid codi yn blygeiniol i ddal y bws, am unwaith codi yr un amser â'n tad. Os cofiaf yn iawn dal y bws ym Mhenllyn oedd y trefniant a hwnnw wedyn yn codi plant yn Cwm ac yn Llanrug ar y ffordd i stesion Dre. Coblyn o drên hir yno wedi codi plant Llŷn ac Eifionydd a phlant Pen-y-groes ar y ffordd. Gwibio ymlaen ar ôl Bangor ar hyd yr arfordir.

I'r rhan fwyaf ohonom roedd y wlad ar ôl stesion Rhyl (trip yr Ysgol Sul) yn ddiarth a phell iawn o adre. Dydw i ddim yn cofio rhyw lawer am y daith ar hyd y Gororau ond rhywle ar y ffordd gwaeddodd rhywun iddo weld pwll glo a dyna ni wedi cyrraedd y De o'r diwedd. Roedd criw o fysiau yn ein disgwyl yng ngorsaf y ddinas a chludwyd ni ar hyd y ddinas fel roedd gwersi 'heddwch' Miss Evans yn edrych yn wirioneddol fel yr aem heibio o un adeilad i'r llall, ac yn arbennig y Deml Heddwch a Neuadd y Ddinas. Yn cofio honno gan i ni gael te yno — jeli, blwmonj, hufen iâ a brechdannau, llond byrddau di-ri ohonynt. Hefyd cofio cael araith gan yr Arglwydd Faer, yn Saesneg wrth gwsr.

Doedd Parc yr Arfau yn golygu dim i ni ond yr oedd Parc Ninian, gan mai pêl-droed oedd gêm yr ysgol. Am ychydig ar ôl te cawsom grwydro o gwmpas ar

droed, a'r hyn a dynnodd ein sylw oedd gweld adeiladu nifer mawr o gytiau mochall bomiau (*air raid shelters*) ym mharciau'r ddinas — arwydd, yn anffodus, o'r hyn oedd i ddod yn go fuan wedyn. Un peth arall rwy'n gofio oedd bod Falmai Griffith o'r Felin, Brynrefail gynt wedi dod i roi *send-off* i ni a phlant Ysgol Botwnnog wrth i ni gychwyn am adre. Falmai yn ferch i D.R. Griffith a fu ar staff Ysgol Brynrefail yn y 20au a dechrau'r 30au ac wedyn yn brifathro Ysgol Botwnnog. Roedd hi yn y coleg yng Nghaerdydd ar y pryd.

Ar y ffordd adra digon distaw oeddem a sawl un yn pendwmpian ac yn cwffio yn erbyn cwsg. I blant a phobl ifanc heddiw nid yw trip i Gaerdydd yn ddim, ond i blant y 30au roedd yn bell iawn ac yn ddiwrnod i'w gofio yn gymaint ac i ni fod yn sôn am y trip a'r hyn a welsom am fisoedd lawer wedyn wrth y rhai o'r ysgol nad aeth ar y trip.

* * *

Byddai'n ddiddorol clywed gan eraill a fu ar yr un daith; a thybed a oes yna luniau ar gael o'r diwrnod rhyfeddol hwnnw!

Cofiwch fod Pwyllgor Dathlu'r Canmlwyddiant yn parhau i chwilio am eitemau i'w harddangos yn neuadd yr ysgol ar Sadwrn cyntaf y dathlu. Eisoes cafwyd addewidion am rai o gadeiriau eisteddfodol a enillwyd yn yr ysgol, ac anfonwyd pethau fel 'sashes' a theis, a rhaglenni cystadlaethau chwaraeon. Ond mae gwir angen am fwy — yn enwedig hen lyfrau — unai'n llyfrau gosod neu gopiâu nodiadau; a beth am hen bapurau arholiad? A thybed oes yna rhywun yn ddigon dewr i anfon rhai o'i adroddiadau ysgol i'w dangos?

Chwilio am Deulu

Mae gwraig o Gasnewydd, De Cymru yn chwilio am wybodaeth am ei theulu a fu'n byw am gyfnodau yn Llanrug a Llanberis. Am gyfnod byr iawn bu John a Mary Williams (Davies cyn priodi) yn byw yn Llain Gro, Llanrug, ond symudodd y ddau i Williams Terrace, Llanberis. Yn dilyn ymholiadau, cefais ar ddeall fod Williams Terrace erbyn hyn yn rhan o Stryd Newton, Llanberis. Tybed sawl stryd arall sydd wedi 'diflannu' ond yn parhau i sefyll? Roedd John Williams erbyn hyn yn gertiwr yn Chwarel Glynrhonwy.

Roedd ganddynt fab o'r enw William Williams a anwyd tua 1882, ond collwyd dau fab arall iddynt yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu Mary Williams farw yn Williams Terrace yn 1918.

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw wybodaeth am y teulu, yn enwedig os oes rhai

o'u disgynyddion yn parhau i fyw yn yr ardal heddiw.

Damwain yn Llyn Peris

Oes rhywrai o'r darllenwyr yn gwybod ble mae'r Gors Goch yng nghyffiniau Llyn Peris? Gerllaw yn 1829 y bu damwain angeuol pan suddodd cwch yn cario chwarelwyr. Enwir un fel David Griffiths, Stamps a'r llall oedd Evan Evans, Cwm-y-glo. Ai wrth eu gwaith fel chwarelwyr yr oeddynt ar y pryd, ac os hynny, beth oeddent yn ei wneud? Ar y llaw arall, os oeddent ar eu ffordd i, neu o'r gwaith, mae'n anodd dirnad pam roedd gŵr o Gwm-y-glo a gŵr o Stamps ar yr un cwch, gan fod y ddau yn byw mewn cyfeiriadau hollol groes i'w gilydd. Efallai y byddai darganfod lleoliad y Gors Goch o fudd i ddatrys y dirgelwch.

Eisteddfod Lewis's

Daeth mwy o ymateb i hanes y 'steddfod hon, ac addewid am ragor o luniau. Cefais hefyd sawl galwad ffôn yn awgrymu enwau i'r aelodau yn y llun a ddangoswyd yn y rhifyn diwethaf. Hyd yn hyn cefais yr enwau John (Jac) Maldwyn Roberts a Hughie Jones, y ddau o Ddeiniolen.

Gwybodaeth arall o ddiddordeb oedd y ffaith fod trefnwyr yr eisteddfod yn gwahardd trigolion Lerpwl rhag cystadlu ynddi. Roedd hi'n amlwg pam: gwyddai cyfarwyddwyr y siop a noddai'r 'steddfod y deuai digon o gystadleuwyr o ogledd Cymru i'r ddinas, a llawer o'u teuluoedd a'u cefnogwyr gyda hwy. Felly, dull cynnar o hysbysebu er mwyn denu pobl i wario yn y siop oedd hyn.

Evan Parry Jones, Blaenau Ffestiniog

Derbyniais fwy o wybodaeth am y rheolwr chwareli a anwyd yn Llanberis. Mae'n ymddangos mai un o Rostryfan oedd ei dad, Evan Jones. Priododd â chwaer John Wheldon, Llwyn Celyn, a bu'r teulu yn byw yn Tŷ Mawn, Llanberis.

Cysylltwch gydag unrhyw ymholiad neu bwt o wybodaeth am hanes y fro â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: 01286 673515).

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

O SIAMBAR SELWYN

Ga i yn y lle cynta ddiolch o galon i nifer ohonoch chi sy'n troi i mewn yn gyson i'r Siambar, am i chi ddod i gysylltiad â mi ynglŷn â'r hanesion am John Cefn Bach a ymddangosodd yn y golofn hon ychydig yn ôl. Oedd, yn sicr, roedd John yn gymeriad, ac fel yr awgrymais — nid am ei ffraethineb ond am ei ddiniweidrwydd. Rwy'n ddiolchgar iawn i nifer ohonoch am rannu eich atgofion hefo fi drwy eich cysylltiad â John.

★ ★ ★

Dydi cyd-ddigwyddiadau yn ddiddorol. Dwi'n cofio, rai blynyddoedd yn ôl bellach, roeddwn i yn beirniadu'r adrodd yn Steddfod Melin-y-coed, Llanrwst. Y darn mewn un o'r cystadlaethau oedd 'Y Llwynog', R. Williams Parry. Wrth draddodi, digwyddais grybwyll na fu i mi erioed gael y ffrainc a'r wefr o weld llwynog yn wyllt yn ei gynefin. Roeddwn i'n teithio adre heibio i Ddyffryn Mymbyr yn oriau mân y bore o'r Steddfod honno a, choeliwch neu beidio, be wibiodd fel mellten o flaen trwyn fy nghar — ia, Siôn Blewyn Coch ei hun.

Ydi, mae cyd-ddigwyddiadau bob tro yn ddiddorol — ac ambell un yn ddoniol hefyd.

Dyna i chi y ddynas honno o Exeter, Caer Wysg. Fe'i ganed hi ar ddydd coroni y Brenin Edward VIII, ac oherwydd hynny fe'i bedyddiwyd hi yn Coronation. Ymhen blynyddoedd fe briododd â gŵr o'r enw Edward Street. A'i henw hi wedyn oedd — Coronation Street. Gyda llaw, yr enw gwreiddiol ar yr opera sebon boblogaidd oedd — Ffloreisal Street.

Dyma i chi un arall. Fel y gŵyr y rhan fwy ohonoch, ar Ebrill 15, 1912 fe suddodd y llong Titanic ar ei mordaith gyntaf. Bedair blynedd ar ddeg cyn hynny, fe gyhoeddwyd nofel gan awdur o'r enw Morgan Robertson sydd fel pe'n rhagweld trychineb y Titanic.

Yn nofel Mr Robertson, mae'n noson niwlog ym mis Ebrill. Mae o'n disgrifio llong o'r un maint â'r Titanic ar ei mordaith gyntaf yn gwrthdaro â mynydd o rew — yn union fel y digwyddodd i'r Titanic.

Ond, coeliwch neu beidio, enw'r llong yn nofel Morgan

Robertson oedd Titan. Gyda llaw, aeth perchennog y Titanic ddim ar y fordaith. Roedd o'n sâl ar ddiwrnod yr hwylio. Gwell salwch tir na salwch môr.

Ar Dachwedd 14, 1973 fe briodwyd y Dywysoges Anne a'r Capten Mark Phillips. Y prynhawn hwnnw yn Wolverhampton, roedd 'na rاس ceffylau ac enw'r ceffyl a enillodd y 'Two Thirty Wedding Stakes' oedd un o'r enw Royal Mark.

Efallai y byddai Tom Thumb wedi gwneud ei farc fel joci. Fe stopiodd dyfu pan oedd o'n 6 mis oed. Ymunodd â syrcas pan oedd o'n 5 oed. Ei daldra fo oedd, dwy droedfedd a deg modfedd. Mi briododd o â merch o'r enw Lavinia, ac roedd hi ddwy fodfedd yn llai na Tom. Pan fu farw Tom Thumb ar y 15 o Orffennaf, 1883, fe ailbriododd Lavinia hefo un yn dwyn yr enw Count Primo Magri, ac mi roedd hwnnw, coeliwch neu beidio, yn ddwy fodfedd yn llai na Tom Thumb. Ond rhoswch — dyma i chi gyd-ddigwyddiad. 57 o flynyddoedd i'r diwrnod y bu farw Tom Thumb, bu farw gŵr o'r enw Robert Wadlow, sef y gŵr talaf a droediodd y ddaear 'ma erioed. Roedd o yn naw troedfedd o daldra. Ia, rhyfedd o fydd.

Mae y rhif 13 yn anlwcus medd rhai. Pan es i i drio'r sgolarship ers talwm y rhif a gefais oedd 13. Pan ddaeth y canlyniadau roeddwn i'n drydydd ar ddeg ar y rhestr i fynd i Gownti Sgwyl Caernarfon. Dwi'n dal yn ffyddiog fod 13 yn rhif lwcus i mi. Anaml iawn y daw o i fyny ar y loteri.

Dyma gyd-ddigwyddiad 'ffigyrol' i gloi. 'Dynas deud ffortiwn' yn deud wrth y Brenin Edward VII y byddai y rhifau 6 a 9 yn dylanwadu ar ei fywyd o.

Tybed? Mi briododd o yn 1863. Os rhannwch chi y rhif yna: mae 1+8 yn gwneud 9, ac mae 6+3 yn gwneud 9. Enw gwraig Edward oedd Alexandra, ac mae 'na 9 llythyren yn ei henw, a hefyd yn enw ei thad hi - Christian. Gyda llaw, Christian y 9fed oedd o. Diwrnod coroni Edward oedd 9 o Awst. Bu'n teyrnasu am naw mlynedd a phan fu farw roedd o'n 69 oed.

★ ★ ★

Gan i ni ddechra mewn Steddfod — dyma i chi gyd-ddigwyddiad eisteddfodol. Yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd 1973 mi fu bron i Bryddest am

Dre Caernarfon ennill y Goron. Yn Eisteddfod Genedlaethol De Powys 1993 (ugain mlynedd yn union yn ddiweddarach) fe gipiwyd y Gadair am Awdl am Dre Caernarfon. Ffug enw y ddau fardd oedd 'Porth yr Aur'.

Meirion Macintyre Hughes oedd y bardd buddugol yn 1993 ar faes y Sioe Amaethyddol. Bymtheng mlynedd cyn hynny yn 1978 ar yr union faes, fe enillodd ei frawd yng nghyfraith o Gadair yr Urdd. Pwy oedd o? Wel, Robin Llwyd ab Owain.

Does 'na gyd-ddigwyddiadau diddorol dudwch. Ydach chi'n gwobod am rai?

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.

Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

CORON DRIPHYL Yn Ysgol EISTEDDFODOL. Yn Ysgol Gynradd Llanrug gwelir tarian 'Eisteddfod yr Urdd, Cylch Caernarfon, Adran Iau'. Enillwyr y tarian am y blynyddoedd 1931, 1932 a 1933 oedd 'Ysgol Caeathro'. A oe rhywun yn cofio'r cyfnod aur eisteddfodol yn yr hen ysgol bach?

GWASANAETH BWS. Dechreuwyd amserlen yr haf ar 28 Mai. Nid oedd unrhyw newid i wasanaeth y gwanwyn. A oes angen bws i Gaernarfon rhwng 7.05 a 11.45 yr hwyr ac o Gaernarfon rhwng 7.05 a 11.20 yr hwyr?

SYMUD TAI. Gyda symudiad Hywel a Mair Evans a'r teulu o Ros Walia i Rhythallt Ganol, ceir trigolion newydd yn Rhos Walia. Croeso i Geraint a Meg Jones a'u plant, Jonathan a Beth i Gaeathro. Mae Geraint yn rheolwr yn Garej Gwalia.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Mai 28: 11:00 Ysgol Sul;
10.00 Parch Gareth Maelor;
Mehefin 4: 11.00 Ysgol Sul;
Mehefin 11: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Mr Glyn Owen.
Mehefin 18: 11.00 Ysgol Sul.
Mehefin 25: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Parch Dafydd Hughes.

Mae'r plant yn ffyddlon iawn i'r Ysgol Sul. A oes modd i'r oedolion ddangos yr un gefnogaeth a bod

yn bresennol yn yr oedfaon pythefnosol?


TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Pwyllgor y Cae Chwarae ar gyfer mis Mai oedd:

1. (52) £40: Collette Donaldson, Homes; 2. (63) £25: Einar Roberts, 3 Erw Wen; 3. (62) £15: Jason Jones, 5 Erw Wen; 4. (57) £5: RM Roberts, 9 Bryn y Gof.

CROESO ADREF. Ar ôl cyfnod mewn ysbyty, mae Mrs Dwynwen Griffith, Bryn y Gof adre unwaith eto ac yng ngofal y teulu. Brysiwch i wella'n llwyr.

LLONGYFARCHIADAU i Gwilym Griffiths ar deryn ei gyfnod fel Cadeirydd lleol Feterans Dunkirk. **PLANNU COEDEN.** Ar Mai 25 plannwyd coed yn swyddogol yng nghanol y pentref gan Glwb Garddio Caeathro. Sefydlwyd y Clwb 21 mlynedd yn ôl yn festri'r Capel. Ers hynny, mae cartref y Clwb ar gyfer cyfarfodydd wedi symud o amgylch y fro. Fodd bynnag, mae'r aelodaeth yn ystyried Caeathro fel eu cartref gwreiddiol ac ysbrydol. Mae'r coed hefyd yn ddathliad o'r milflwydd newydd yng Nghaeathro.

CAEATHRO AR WASGAR. Yn ystod ymweliad Côr Meibion Caernarfon â Toronto, Canada yn ddiweddar, un a oedd yn y gynulleidfa fawr oedd Ken Jones, gynt o 4 Bryn y Gof.



Mrs Berry, Llywydd y Clwb Garddio, John Coombs (Cadeirydd) a'r Cynghorydd Clive James yn plannu coeden ar adeg pen-blwydd y Clwb yn 21 oed.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

CYMDEITHAS EGLWYS ST PERIS A ST PADARN.

Cynhaliwyd y cyfarfod misol o Gymdeithas yr Eglwys yn Angorfa nos lau, Mai 4 gyda Mrs Ann Parry-Jones yn llywyddu. Ar ôl croesawu yr aelodau, ymddiheurodd nad oedd y gŵr gwadd yn medru bod yn bresennol oherwydd afiechyd. Treuliwyd noson ddiffr iawn gyda rhai o'r aelodau yn cymryd rhan mewn cwis, ac eraill yn adrodd y profiad oeddynt wedi ei gael wedi iddynt gymryd rhan y mis cynt mewn sesiwn o'r 'Healing Hands'. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mrs Margaret Griffiths a Miss Nancy Williams, gyda Mrs Evelyn Williams yn ennill y wobwr. Cytunwyd i ail-ethol yr holl swyddogion am dymor arall.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu yr aelodau yn Festri Eglwys Sant Padarn bnawn dydd Mawrth, yr unfed ar bymtheg. Mrs Betty Humphreys gymerodd y gwasanaeth agoriadol. Darllenwyd cofnodion y mis blaenorol ac fe'u derbyniwyd yn gywir.

Cyfeiriwyd at salwch dwy aelod ffyddlon o'r gangen, sef Mrs Hilda Williams a Mrs Betty Williams, gan fawr obeithio y byddant yn teimlo yn well yn fuan.

Cafwyd ychydig o faterion busnes gan grybwyll y trip blynyddol, y dyddiad a'r man cyfarfod i'w penderfynu yn y cyfarfod nesaf. Yn dilyn cafwyd sesiwn o brynu a gwerthu a gwnaed elw taclus.

Diolchodd Mrs B Humphreys i Mrs Gwen Williams am y lluniaueth. Mrs Nan Owen oedd enillydd y raffl. Diwedddwyd drwy adrodd y Gras.

PLAS PENGWAITH. Yn dathlu eu pen-blwydd ym mis Mehefin roedd Mrs Elisabeth Williams, Mrs Bessi Owen, Mrs Mair Williams a Mr JH Williams. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Wedi dod atomi aros am gyfnod mae Mrs V Roberts o Fethesda. Croeso atom unwaith eto iddi.

18 Ebrill, Ifan ac Enid ddaeth i'n diddori. Diolch yn fawr iddynt.

Mae'r gwaith gwres canolog wedi dod i ben rwan ac mae'r ffenstri dwbl bron i mewn i gyd.

Gwaith addurno fydd yn mynd ymlaen nesaf. Mae pawb yn edrych ymlaen at hyn.

Cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Rosalind Moore a Wynford James. Maent yn brysyr yn mynd o gwmpas Cartrefi Cymru ar y funud. Carwn ddiolch yn fawr iddynt am ddod atom i'n diddori.

Rydym wedi bod yn lwcus yn ystod mis Mai: cael bws mini a'r tywydd yn braf. Cawsom fynd i Gricieth am y prynhawn, i Bwllheli am y diwrnod, a chael sgodyn a sgolodion ar y promenâd. Aethom gyda'r nos i Ddinas Dinlle, wedyn diwrnod arall yn Llandudno, rownd yr Orme, cael sgodyn a sgolodion yng Nghonwy. Picnic yn Ffestiniog, Tanygrisiau i ddarfod yr wythnos.

Sadwrn, 6 Mai. Cafwyd Barbaciw ar lawnt y Cartref a phawb wedi mwynhau eu hunain.

Mai 29 cynhaliwyd Sêl Cist Car yn y Cartref o 1.30 ymlaen.

Cafwyd cystadleuaeth rhoi enw ar yr unedau yn y Cartref. Wedi eu dewis gan y trigolion: Mrs M Lewis - Ceirios; Mrs C Hughes - Glasfryn; Mr T Williams - Dorothea; Miss M Miller - Heulwen.

Enillwyr Raffl y Pasg oedd y canlynol: Cacen Siml - (01248) 353749; Basged o ffrwythau - Gwen Williams; Potel Mush - Mrs E Williams PPG; Impulse - 674039; Wy Pasg - Mr RH Jones PPG; Bocs Siocled - (01248) 353749; Potel o win - Neil Hopol; Glyn 676502; Derek PPG; Jean PPG.

Hoffwn i gyd yn y Cartref gyhoeddi mor siomedig rydym fod rhywun wedi bod mor isel a dwyn pedair cadair blastig haf o du allan i'r Cartref yn ystod mis Mai. Wedi eu prynu yr oeddynt gydag arian a dderbyniwyd i Gronfa'r Preswylwyr a rhywbeth bach ydyw cael mynd allan i eistedd pan mae'r tywydd yn braf.

DIOLCH. Dymuna Shane a Nia, Padarn View ddiolch o galon am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab, Dion, brawd bach i Nathan.

Diolch hefyd am yr ymholiadau a'r galwadau ffôn a'r gefnogaeth gawsant pan oedd Dion bach yn



O'r diwedd mae plant y pentref yn gallu chwarae unwaith eto ar y cae chwarae ar hen safle'r gwaith nwy oddi ar Stryd Goodman. Cwblhawyd y gwaith o lanhau'r safle wedi i wenwyn gael ei ddarganfod yn y pridd. Mae'r offer newydd wedi ei osod, a'r plant a'u rhieni wrth eu bodd bod y cae ar gael eto.

wael yn ysbytai Great Ormond St, Llundain, Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i hogiau'r Frigid Dàn am eu cymorth. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Hoffai Gloria a Bill (Pitts) ddatgan eu diolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymodgion am y llu cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur ar Ebrill 26.

DIOLCH. Dymuna teulu Tom a Nellie Owen, Corby ddiolch i'w teulu a ffrindiau am wneud noson ben-blwydd Tom yn un mor hapus. Diolch am yr anrhegion gwerthfawr. Diolch hefyd i

Aneurin a'r staff yng Ngwesty Dolbadarn am y croeso bendigedig. Diolch arbennig iawn i Gôr Meibion Dyffryn Peris am gyngerdd bythgofiadwy.

DIOLCH. Dymuna Mrs Elinor Morris, Bryn Teg ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymodgion am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd, yn gardiau, anrhegion a galwadau ffôn ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

**CEIR
ADAM**



HURIO PREIFAT
YN UNIG

LLEOL NEU HIRBELL

LLANBERIS
871539

**IEUAN
WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

**Gwynedd
Hotel**
& Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael.
Bwydlen Bar a Restaurant.
Mae gennym bellach drwydded lawn tŷ tafarn.

ANTUR NEWYDD

Colofn Annwen



Pan oeddwn yn fach roeddwn i'n byw yn Bethania House yn y Felinheli hefo Mam. Ro'n i'n mynd i ysgol Llanfairpwll i ddechrau, wedyn i Pendalar. Mae gen i Nain yn byw yn Traws, a pherthnasau yn byw ar fferm yna, dwi wrth fy modd yn mynd yno am dro i weld Nain.

Dechreuais weithio yn Antur Waunfawr ychydig ar ôl gadael Pendalar, wedyn ges i fynd i fyw yn Caer Saint a chael stafell i mi fy hun. Fi ddewisodd y lliwiau i'r llofft a'r cyrtans.

Dwi isio dweud hanes Michael Hughes yn disgyn i'r pwll yn y Parc. Wrthi'n gwneud y pyllau yn y parc oedden ni, ac wedi gwneud twll mawr i un o'r pyllau. Roedd ochrau y twll yn lithrig iawn a slipiodd Michael i fewn i'r dŵr. Doeddwn i ddim yn chwerthin ond roedd rhai. Roedd Michael yn iawn.

Dro arall roedd yn rhaid i mi fynd a David John am dro rownd y parc mewn cadair olwyn. Ar ôl i ni orffen gwneud y llwybr a'r bont dros y pwll roedd yn rhaid i ni fynd a David John am dro rownd y parc mewn cadair olwyn i wneud yn siŵr fod y llwybr yn iawn i bobl mewn cadair olwyn. Y fi oedd yn gwithio David John. Y fi ydi'r hogan lleiaf yn Antur ac mae David John yn un o'r rhai mwyaf — roedd pawb yn cael hwyl fawr yn edrych arnom. Mae lot o bobl yn mynd yno hefo cadair olwyn rwan, a mamau a phlant mewn pram.

Heddiw digwyddodd rhywbeth arall rhyfedd, daeth Phyllis Doris y chwaden i fewn i'r caffi. Roedden ni i gyd yn chwerthin, ond roedd yn rhaid i ni hel hi allan neu fuasai Carole sy'n rhedeg y caffi yn dwrdio!

Pan ddechreuais weithio yn Antur, roeddwn yn dal i fyw yn Bethania House hefo Mam. Roedd Eurwyn yn dod i fy nŵl bob bore. Roedd Eurwyn yn ffeind iawn, yn ffrind i mi ac roeddwn yn cael lot o hwyl. Ar ôl ychydig nes i ddechrau dod i'r



Antur hefo bws ar ben fy hun.

Yn y dechrau torri gwair oedd fy ngwaith, hefo Michelle, Cathrin Hughes, Eira, Keith Parry a Gill Brown. Wedyn es i weithio yn y siop hefo Gill, yn gwneud jam a papur. Dwi'n dal yn gweithio yn y siop ond yn helpu Carole yn y caffi rhywfaint bob dydd. Dwi'n helpu i wneud y bwyd, yn pario tatws a gwneud falau yn barod i'w coginio. Hefyd dwi wedi dysgu defnyddio'r peiriant i wneud 'frothy' coffi. Mae'n gwneud lot o sŵn ond dwi'n dda am wneud y coffi.

Cyn agor y caffi daeth dynes yma i roi cwrs bod yn lân hefo bwyd i ni. Sut i olchi dwylo yn iawn cyn dechrau, a dwi'n gorfod gwisgo brat bob amser. Dwi'n gwneud hyn adref yn Caer Saint wrth wneud swper i mi fy hun hefyd.

Y peth mwyaf trist dwi'n gofio yn digwydd yn Antur oedd y tân mawr. Pan ddaethb i gwaith un bore roedd rhywun wedi rhoi y siop ar dân yn y nos. Roedd popeth wedi llosgi — y gegin yn ddu i gyd a'n gwaith ni wedi mynd. Plismyn, dynion tân a pobl o'r teledu yma ym mhob man. Roedden ni i gyd yn drist ac yn crio. Does neb wedi cael hyd i pwy ddechreuodd y tân.

Roedd cnebrwng Eurwyn yn drist hefyd.

Croeso Euraid ym Mrynteg



Christine Evans yn cyflwyno plac a thystysgrifau i staff Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg.

Mae 'Cynllun Croeso Cymru', rhaglen a redir gan Fwrdd Croeso Cymru, yn falch o gyhoeddi enw enillydd diweddaraf eu Gwobr Aur arobryn: Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg, Llanrug, Caernarfon.

Dim ond pan fo 90% neu fwy o staff y sefydliad dan sylw wedi

dilyn rhaglen hyfforddiant Cynllun Croeso Cymru mewn delio'n effeithiol â chwsmeriaid y dyfennir Gwobr Aur. Cyrhaeddodd Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg y nod hwn ym mis Mawrth eleni yn dilyn cyfres o ddyddiau hyfforddiant a drefnwyd gan Gynllun Croeso Cymru yn y Parc.

Mewn ychydig dros 18 mis, gwariwyd dros £3.5 miliwn yn gwella adnoddau'r parc, gan y perchnogion, a fu'n rhedeg busnes teuluol parciau gwyliau yng Ngogledd Cymru ers blyneddau lawer. Mae Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg bellach yn cyflogi dros 50 o staff llawn amser i roi'r gwasnaeth gorau posibl bob amser. Mae hyn yn ogystal â'r cyfleusterau rhagorol a ddatblygir yn y parc, yn cynnwys cwrs golff 9 twll, clwb gwlad, lle chwarae pwrpasol dan do i blant, llwybrau coedwig a bistro glan llyn, oll dan oruchwyliath gynnil 24 awr.

Meddai James McAllister, y Rheolwr Cyffredinol: 'Ein nod ym Mharc Cartrefi Gwyliau Brynteg yw bod y gorau ym Mhrydain. Rydym yn falch dros ben o ychwanegu anrhydedd Gwobr Aur Cynllun Croeso Cymru at ein llwyddiannau eraill: Gwobr Arian Cadwraeth David Bellamy ac ail yng nghystadleuaeth Calor i'r 'Parc lle bu'r gwelliannau mwyaf yng Nghymru'.

Annwen Fletcher

antur WAUNFAWR

caffi 'Blas y Waun' cafe

prif nodwedd Bwydlen 'Blas y Waun' yw
defnyddio cynnyrch lleol

os oes gennych lysiau neu ffrwythau
ffres i'w gwerthu cysylltwch â
Carole Owen, Rheolwraig 'Blas y Waun'



01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

CO-OP LLANRUG

- * Bydd y siop yn agor tan 7pm bob Nos FAWRTH a Nos IAU
- * Mae defnyddiau garddio - grobags, gwrtaith etc mewn stoc.

**bwyd a nwyddau o safon
holl anghenion y ty yn lleol**

Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

GENEDIGAETHAU. Croeso mawr i Lois, merch fach Eira Wyn, Perthi. Llongyfarchiadau i Brian a Megan ar ddod yn nain a thaid. Pob bendith i chwi fel teulu.

Llongyfarchiadau brwd hefyd i Fiona a Mark ar enedigaeth eu cyntafanedig, Ianto Llwyd. Llongyfarchiadau i Pat ac Arnold, hwythau yn nain a thaid am y tro cyntaf. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu.

Yr un yw'r croeso i Anya, merch fach Paula a Barry a chwaer fach i Tomos. Ein dymuniadau gorau i chwithau fel teulu bach.

GWELLHAD. Dymunir adferiad iechyd buan i bawb sydd wedi bod yn sâl, brysiwch wella i gyd, gan obeithio y daw'r tywydd teg yn ôl i lôn'ch calon. Gobeithio fod Mrs Ethel Jones yn gwella wedi'i thriniaeth yn yr Ysbyty, ein cofion annwyl atoch.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mai a'r enillwyr y tro hwn oedd: 1. Jên Jones, Ysgol Gymuned; 2. Elgan Williams, Pen y Gaer; 3. Sally Griffiths, 16 Bryntirion.

Y mae'r aelodau wrthi'n brysur yn gwerthu raffl a gofynnir yn garedig am eich cyfraniadau er budd y Neuadd Gymuned. Gobeithir yn y dyfodol gynnal Ocsiwn Addewidion, felly os dymuna unrhyw un gyfrannu byddwn yn hynod falch o'ch cefnogaeth.

PROFEDIGAETH. Ein cydymdeimlad llwyrfa â Tegid a Nant, Huw Ynyr ac Eurig yn eu colled fawr ym marwolaeth mam Tegid.

TRIP YR YSGOLION SUL. Bydd y trip yn mynd i Blackpool ar Sadwrn Gorffennaf 8. Bydd y bws yn cychwyn o Groesffordd King am 7.30. Pris i oedolion fydd £8.00,

plant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul: £4.00. Enwau rhag blaen ynghyd â'r arian i Elizabeth Jones (872421), neu Ann Patterson (872405).

YSGOL SUL BOSRA. Fel cychwyniad i geisio cynnal 'Oedfa Ysgol Sul y Teulu' yn achlysurol yn ystod y misoedd nesaf, fore Sul Mai 28 yn ail hanner sesiwn yr Ysgol Sul daeth y Parch Huw John Huws i annerch y plant ac i weinyddu bedydd aelod o'r Ysgol Sul, sef Elin Prysor a'i chefnider bychan, Tomos. Braff oedd gweld cymaint o oedolion a rhieni wedi troi i mewn. Braff hefyd oedd i'r plant gael deall ystyr bedydd a gweld y ddefod ynghyd â chymryd rhan mewn canu emynau addas a dysgu adnodi i gydlynfnd â'r gwasanaeth arbennig hwn. Pob bendith i Elin a Tomos a gobeithio y byddant yn dal yn ffyddlon i'w Hysgol Sul.

Gobeithir cynnal cyfarfodydd teuluol fel hyn eto ar achlysuron arbennig megis Gŵyl y Diolch a'r Nadolig, gan wahodd oedolion o'r tu allan i siarad â'r plant a'u rhieni. CAPEL UNDEBOL BOSRA. Bnawn Sul, Mai 21 bedyddiwyd Magi, merch fach Anna Marie a Tudur Huws Jones, Llain y Werin. Gweinyddwyd gan Mr Myrddin Jones.

EGLWYS SANTES HELEN. Cynhelir Carnifal yng ngofal yr Eglwys gan gychwyn ar ddydd Gŵyl y Banc, Awst 28. Trefnir Bingo, Chwist, Disgo i'r plant, Dawnsio Llinell, Mabolgampau, Gŵyl Flodau a Chrefftau Lleol, Helfa Drysor, y Carnifal ei hun gyda Chymanfa Ganu i gloi'r gweithgareddau. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir cyfarfodydd Cymdeithas

y Beiblau, bnawn Sul, Mehefin 28 yn Eglwys Llandinorwig gyda Gwasanaeth y Plant am 2.00 o'r gloch.

Cynhelir Cymanfa Ganu yn yr hwyr yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen am 6.00 yr hwyr.

Arweinydd y Gân fydd Mair Huws, Llanrug a cheir eitemau gan Gôr Dyffryn Peris. Gwneir casgliad tuag at y Gymdeithas yn y ddau gyfarfod. Bydd bws yn cael ei drefnu a cheir y manylion eto.

CYMANFA YSGOLION SUL CYLCH PADARN

Cynhaliwyd y Gymanfa yn Capel Coch, Llanberis ar Mai 7, 2000. Arweinydd y Gân oedd Mrs Lowri Prys Roberts Williams, Brynrefail a'r Organydd oedd Mr Gareth Jones, Capel Coch. Llywyddwyd cyfarfod y pnawn a'r hwyr gan y Parch John Pritchard, Llanberis. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan blant yr Ysgol Sul yn y pnawn a chan Mr Cledwyn Parry yn yr hwyr. Yn ystod cyfarfod yr hwyr cafwyd eitemau o'r Cantata a berfformiwyd dros y Pasg gan aelodau o wahanol eglwysi cylch Llanberis.

Canlyniadau'r Arholiad Llafar:

Dan 4 oed: 1af. Catrin Elen Jones, Jac Ynyr Egan, Deiniolen; Lowri Mai Williams, Katie Roberts, Gwen Alaw Williams, Kate Lloyd, Elin Tomos, Capel Coch; Iwan Huw Harper, Gwawr Jones, Guto Sion Griffiths, Cysegr.

Dan 5 oed: 1af. Elin Angharad Jones, Deiniolen; Derri Jane Sinclair, Dinorwig; Cadi Pritchard, Sion Robert Hughes, Lowri Sharpe, Glesni Sharpe, Cysegr.

Dan 6 oed: 1af. Owain Llyr James, Daniel Wyn Jones, Ffion Wyn Jones, Deiniolen; Arron Martin Hughes, Manon Elwyn Hughes, Lois Roberts, Elin Owen, Ildid Speake, Bronwen Price, Gerallt Jones, Gethin Wyn Griffiths, Tomos Richard Caullcutt, Aled Einion, Cysegr.

Dan 7 oed: 1af. Gwenno Medi Morris, Dinorwig; Anna Gwenllian George, Brynrefail; Tomos Williams, Miriam Pritchard, Capel Coch; Dyfan Huw F. Coles, Osian Rhys Jones, Catrin Jones, Greta Fflur Jones, Llio Grisial Hywel, Sian Catrin Jones, Angharad Haf Morris, Cysegr.

Dan 8 oed: 1af. Manon Wyn Jones, Aaron Wyn Jones, Deiniolen; Manon Pritchard, Llion Gwyn Jones, Ceri Wyn Hughes, Capel Coch; Enfys Mai Roberts, Sion Elwyn Hughes, Sioned Owen, Mari Elena Parry, Angharad Price, Mari Pritchard, Cysegr.

Dan 9 oed: 1af. Caryl Ann Williams, Deiniolen; Rhian Elen George, Caryl Jones, Awen Jones, Brynrefail; Sara Parry, Sara Jones, Capel Coch; Iona Speake, Ffion Medi Roberts, Elliw Sharpe, Hefin Owen, Cysegr.

Dan 10 oed: 1af. Aled Gwilym Jones, Cysegr; Sioned Mair Phillips, Dinorwig; Ian Williams, Tomos Parry, Capel Coch; Ian Jones, Cysegr.

Dan 11 oed: 1af. Gwen Thomas, Carwyn Jones, Capel Coch.

Dan 12 oed: 1af. Donna Elizabeth Phillips, Dinorwig; Nia Glyn, Kaylee Jones, Cysegr.

Dan 16 oed: 1af. Iwan Morris, Cysegr.

Oedolion: Mrs Nancy Williams, Mrs Ann Lewis, Mrs Edwina Morris, Mrs Nora Parry, Mrs Elizabeth Evans, Myfanwy Harper, Cysegr; Mrs Eunice Jones, Rhiwlas.

Carai pwyllgor y Gymanfa ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog, Blaenoriaid, Swyddogion ac aelodau Capel Coch am wneud y Gymanfa yn un llwyddiannus. I Mrs Lowri Prys Roberts Williams am arwain y gân ac i Mr Gareth Jones am fod wrth yr offeryn. Diolch yn arbennig am y te ardderchog a ddarparwyd. Diolch i'r côr am ein diddori ac i'r gynulleidfa am fynychu'r ddau gyfarfod.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaedddech mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741


★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio

★ Porches

★ Byrddau Ffasia

★ Cladio

★ Conserfateris



12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

OSMOND SHAW DEINIOLLEN



GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

Cymeriadau Plentyndod

Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug

Mae hi'n hen ystrydeb ein bod bob un yn unigryw, yn gorfforol, feddyliol a moesol, ond mât ambell un rhyw arwahanrwydd yn ei gymuned a gydnabyddir gan ei gyfoeswyr.

Roedd ardal Llanrug yn frith o'r math hwnnw o berson, yn y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd.

Gan imi ddod i gyswllt â'r cyhoedd fel tocynnwr ar fysiau, cefais gyfle i gyfarfod llawer un a oedd angen ei drin yn ofalus, wrth gyflawni dyletswydd pur anodd ar brydiau. Gan i mi ddechrau yn laslanc o'r Ysgol Sir ar Sadyrnau er mwyn ennill prês poced, roeddwn yn bur ddiniwed wrth geisio trin pobol ar deithiau o'r dre i'r wlad. Tueddai ambell un osod rhwystrau ar fy ffordd, trwy gynnig dernyn o arian anhylaw i gael newid parod iddo. Rhoddai hynny dreth ar fy neheuigrwydd gyda'r hen arian, pan oedd deuddeg ceiniog mewn swllt ac ugain swllt mewn punt.

Gorfodid inni ddefnyddio pob math o ystrywiau i sgwario'r cownt, fel gofyn am ddwy geiniog at y swllt i dalu am docyn wyth geiniog, gan roi chwe cheiniog yn newid. Byddai aml un yn cynnig hanner coron i dalu am ei docyn ar daith gyntaf y bore i'r gwaith, a gostiai rhyw ddwy neu dair ceiniog. Trwy ymateb i'r cymeriadau hyn a chroesi cleddyfau â nhw y megid profiad i ddal pen uwch y llanw.

Gruffydd Ifan: Un cymeriad amlwg iawn yn yr ardal oedd Gruffydd Ifan. Hen wr digon anystyriol, o natur erwin a gafodd brofiadau gwyllt wrth weithio yn nociau Lerpwl adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Gellid synhwyro na fyddai Guto ar ôl mewn unrhyw ysgarmes, a gallai fytheirio yn ddeifiol i anfon ei neges adref.

Roedd yn ddigon hydrin yn ei oriau gwaith ond, ar ôl noson go erwin, mewn cyfeddach, gallai fod yn bur groes; a gwae y sawl â'i cythruddai bryd hynny. Gellid plymio dyfnder y sbri yn ôl ei agwedd pan ofynnid am ei docyn bws. 'Oes gynnoch chi dicad, Gruffydd Ifan?' 'Oes, lond sachau.' 'Ga'i weld o, plis?' Pe cydsyniai i'w ddangos, byddai mewn tymer dda, ond weithiau byddai awydd pryfocio arno, gan wrthod talu na dangos tocyn. Diwedd y gân fyddai galw ar D.M. Prichard, y perchennog, wrth y Post yn Llanrug, a galw sylw at y diffyg. 'Yli, Guto, tala i'r hogyn,' me' D.M. ac yna ddi' r ticad i'r golwg. Doedd neb ddim dicach am a wn i, ond O! roedd eisio gras.

Dro arall, pan gauai'r tafarnau am naw o'r gloch ar nos Sadwrn, ceid ambell un, a dreuliasai'r pnawn yn cymowta, yn teithio adref ar y bws hanner awr wedi naw, yn llawn hwyliu ac yn cyfarch y teithwyr fel ei gynulliad ei hun.

Cofiaf un cymeriad o Gwm Brwynog, ar lethrau'r Wyddfa, fyddai yn canmol ei arian ac eisio gwneud argraff ei fod yn gefnog, rhagor y rhelyw o'i gyd-deithwyr. Gan mai hen lanc yn byw hefo'i fam ydoedd Wil Rolant, gallai fforddio mynd i'r dref unrhyw ddiwrnod rhydd o'r chwarel. Ar gyfnod o drai ar y fasnach lechi, gweithid tri diwrnod yn unig a thri ar y dôl. Rhoddai hynny gyfle i Wil fynd i gymowta yn y pnawniau. Nid pawb allai fforddio gwneud hynny a difriol iawn fyddai o 'hogia Llanbyrris'.

'Hogia Llanbyrris,' meddai, 'ar y dôl; gwisgo het a menig melyn, spats am eu fferrau - Rait - styds yn eu pocedil!' Yn groes i'w arfer ef, oedd 'ar y tar', pan gymowtai - 'hogia Llanbyrris ar y dôl' heb arian i'w gwario fel ef.

Un noson o haf ar y bws hanner awr wedi naw o Gaernarfon i Lanberis, daeth y ddau gymeriad a soniais amdanynt eisoes i eistedd yn yr un sedd. Ni allwn gredu fy lwc o gael dau biryn, yn llawn potas efo'i gilydd. Beth fyddai'r canlyniad tybed? Wil Rolant, yn amlwg yn llawn stêm, er nad adwaenai mo Guto Ifan, yn brygowthan mewn ymson ddiddiwedd — digon i fyddaru neb. Tua Phontrug, dyma Guto yn dechrau talu sylw i'w gyd-deithiwr o'r diwedd. 'Rown i'n gwrando ar y gŵr ifanc yma yn siarrad. O! mi roedd o'n siarrad yn dda a Hebraeg da gynno fo!' Dyma pawb yn glana chwerthin a'r ddau yn uno yn yr hwyl.

Siaradai Guto braidd yn fyngus, gan rowlio'r 'r' ac yngan 'ng' am 'l'. Wrth roi ei farn am anifail, ceffyl dyweder, 'Dwi ddim yn i ddrwg ngicio fo, ond hongd on! rrwyd ti'n gofyn gorrmod amdano fo.'

Yn y siop barbwr y'i gwelais un tro, yn disgwyl ei dyrn i gael shêf, pan sylwodd ar lanc o'r pentref a fu gynt yn chwarelwr, yn cael torri ei wallt. 'Hengo, nid hogyn Now Minffordd wyt ti dŵad?' 'Ia, ia,' ebe hwnnw. 'Be 'di dy enw di hefyd?' 'Wil Olifyr,' me' hwnnw. 'Ble wyt ti'n gweithio rrwan?' holai. 'Yn Bristol,' me' fo. 'Be' nei di'n fann?' 'Gweithio yn Fry's Choclet.' 'O, ma gin ti biwti o job,' chwarddai Guto.

Y tro olaf i mi weld Guto Ifan oedd yn croesi llwybr Rhosddu ar ei ffordd adref, a bocs mawr o dan ei gesail. 'Rydach chi'n llwythog iawn, Gruffydd Ifan,' me'n i. 'Wedi bod yn Ffairr Lla'rrwst achan ac wedi cael

cocos. Ew! mi fyddan nhw'n dda efo tatws newydd a photang o Brrown rrwan.'

Gan fy mod yn hogyn ysgol ar ôl y rhyfel cyntaf, cefais gwmni llawer un a fu'n gwasanaethu ei wlad a chawn straeon di-rif am eu profiadau yn y fyddin a thros y môr. Dau felly a'n diddorai ar ffyrdd tywyll y pentref, yng ngolau pŵl lamp oel o ffenestr rhyw siop, fyddai Wil Peintar a Now John Bwli. Doedd dim o anian y bwli yn Now, ond ei fod yn byw hefo'i fam a hen ewythr iddo yn arddel yr enw hwnnw. Hyfforddwyd Now yn oriadurwr pan rhyddhawyd ef o'r fyddin, heb ei goes, ond ni phrofodd ei fedrusrwydd yn y grefft. Pe ymddiriedech eich oriawr i Now i'w chywiro, fe ddôl yn ôl mewn blwch matsus, heb ei chyfannu, fel Wil Bryan gynt.

Fel offerynnwr o dras, y Band Prês a ddenai ei fryd. Cornet fyddai ei hoff offeryn a doedd dim â'i bodlonai yn well na rhedeg trwy rhyw symudiad efo'i geg a'i fysedd, i brofi ei wrhydri. Gwisgai yn drwsiadus bob amser a cherddai gyda rhyw herc a gwich oedd yn dyst o'i anaf. Byddai yn chwannog i ddadlau ar bynciau fel bocsio, band a phêl-droed — ystod ei ddiddordebau. Gwelwyd newid gwrthiol yn ei ddiwyg ar ôl cael ychydig filoedd ar ôl hen wnel yn y 'Merica. Roedd pawb o'r sychedig rai yn ffrindiau iddo wedyn, a chwarae teg iddo bu'n hael efo'i gyfoedion.

Creadur 'smala, fel ei dad, oedd Wil Peintar, a dreuliasai gyfnod efo soldwrs yn yr Aifft. Hen lanc rhadlon, yn pefrio efo'i ddoniolwch, gyda natur atal dweud yn ei leferydd. Ni wyddech beth i'w ddisgwyl pan adroddai stori yn ei ddull 'smala ei hun.

Wrth y tŷ, rhywdro, dangosodd gatalog dillad merched, 'Dyma i ti genod del,' meddai, 'Dim ond swllt ac unarddeg a dimai yr un.'

Roedd wedi bod yn hel at ddyled y capel ac yn galw ar hen bâr, a oedd yn byw yn yr un tŷ, ond fel ci a chath; hi yn y llawr ac yntau yn y llofft. Cafodd groeso gan yr hen wreigan a hanner coron o danysgrifiad.

'Dwyt ti ddim am fynd i fyny ato fo?' holai. 'Gwell i mi alw 'nte,' me' Wil, ac i fyny'r grisiau i'r llofft. 'Hel at gael golau i'r capel ydw i,' me' Wil. 'Hy!' meddai Wmffra. 'Dyna'r unig ola' gâ'n nhw yn fannu mi wran ta. Faint ma' nhw yn i roi i lawr 'na?' 'Hannar coron,' me' Wil. 'O! mi ro'i inna'r un fath rhag iddyn' nhw fod yn y twllwch,' meddai Wmffra, yn ddireidus.

* * *

Oes o dlodi oedd hi yn ardal y chwareli rhwng y rhyfeloedd, a darbodaeth yn elfen hanfodol i gael deupen y llinyn ynghyd. Pryderai mamau o ble y deuai y

pâr nesaf o 'sgidiau i fynd i'r ysgol yn droedsych. Roedd cael cefnau 'sgidiau, i'w troi yn glocsiau, yn help garw. Cofiaf alw yn yr Hafod, ble roedd fy ffrind ysgol yn unig blentyn, i nôl pâr o hen 'sgidiau oedd gan ei fam i'w troi heibio. Mor falch oeddwn wrth feddwl am bâr o glocsiau i fynd i'r ysgol.

Cefais siars gan fy mam i alw yng ngweithdy Joni'r Clocsiwr ar ôl dod adref o'r ysgol, efo'r cefnau. Rhaid oedd eu glanhau yn lân i'r clocsiwr eu derbyn. Gwyliwn John Ifans yn datgymalu'r gwadau i gael gwalas gadarn i dderbyn y gwadnau o bren gwern. Âi John allan i'r corysdd i chwilio am goed addas i'r gwaith a'u pentyrru i sychu yn iard gefn ei weithdy yn Nhaf Lôn. Roedd ganddo rhyw lif ryfeddaf i dorri patrwm y gwadnau, a gefel, o fath, i ddal y coed i'w llyfnhau. Torrai rabad wedyn o gylch y wadn i dderbyn lledr y cefn esgid. Hoeliai strided hir o ledr tenau o gylch y wadn bren i ddiddosi y cefn; pâr o bedolau dur a chlwt o brês ar y trwyn a dyna'r glocsan yn gyfan.

Byddwn wrth fy modd yn holi a stilio a chael atebion 'smala gan y clocsiwr. Cofiaf y teimlad o wisgo pâr o glocsiau newydd eu gwadnu yn llwyfan coed cadarn dan draed. Hyfryd oedd rhedeg, neidio a sboncio ar y ffordd er mwyn cael clywed tinc y pedolau a sain byw y pren; fel merlyn ifanc yn dod o'r efail, newydd ei bedoli; y gwreichion yn tasgu o'r pedair pedol loyw fel y pranciai wrth ei benffrwyd.

* * *

Yr Hen Dorrwr Cerrig: Robert Jones, Penlon: Gallaf ei gofio yn ei flynyddoedd olaf, yn dorrwr cerrig — fel metlin, i fod yn sylfaen i wyneb y ffordd fawr a wesgid gan y rowlar stêm ar ôl triniaeth y car-dŵr.

Byddwn wrth fy modd yn aros am sgwrs wrth domen gerrig Robat Jones, a oedd yn gefnder i'm tad. Gwisgai sbectol o weiren brês, rwylllog rhag i'r gwreichion sboncio i'w lygaid neu'r sglodion cerrig eu hanafu. Dros ei war gwisgai sach dri neu bedwar plyg, rhag i'r glaw dreiddio i'w ysgwyddau a pheri gwayw.

Eisteddai ar stôl isel o goed ar gwr y domen, gyda sach trwm ar ei liniau a'i goesau wedi eu lapio rhag anystwythder y cymalau. Defnyddiai ordd i gael agen yn y garreg gyfan a chyfres o forthwylion hirgoes o gyll, yn amrywio yn eu maint a'u pwysau. Arbedai y goes hir gefn y gweithiwr rhag gorfod plygu ymlaen, ac i roi grym i bob trawiad. Gwisgai fenyg o wllân, heb fysedd, i hwyluso y gwaith a chadw y dwylu yn gynnes. Cynnes ddwedais i? Dyna'r ansoddair prinnaf sy'n bod i ddisgrifio cyflwr yr hen dorrwr cerrig. Caledi ac oerni a ddioddefai i geisio troi y cerrig yn

fara a'r cwbl am ddeunaw ceiniog y llathen giwbig o gerrig bras i blamantu'r ffordd, cyn dyfod y tarmac i selio wyneb llychlyd y ffyrdd yn y dauddegau cynnar.

Credai rhai mai coes bren oedd eiddo Robat Jones, gan iddynt symud panel o goed ym mlaen ei sedd yng nghapel Bryngwyn, lle roedd yn aelod selog, fel y gallai ymestyn ei goes yn yr oedfa i leddfu ychydig ar ei wayw. Doedd ganddo yr un, dim ond anystwythder y cryd cymalau a'i poenai.

Cymerai gryn ddiddordeb ynom ni'r plant a oeddem wrth ei domen yn ei wyllo wrth ei waith, a holai ni'n fanwl am yr hyn a ddysgem yn yr ysgol. Efallai y câi hoe fach i wrando arnom yn adrodd neu'n canu iddo, pe byddai buddugwr o eisteddfod yn ein plith.

Gwnâi ebychiadau uchel a ddôl o'i wddf, yn amrywio yn ôl caledwch y garreg. Sain sy'n aros yn y cof dros ddegau o

flynyddoedd, o ystyried y bywyd caled a'r amgylchiadau gerwin a'i llethai wrth geisio cynnal corff ac enaid.

Weithiau, codai o'i gwrcwd i symud ei bentwr bach i'r domen fawr gyda'i shefl. Rhaid oedd cadw trefn ar y domen fawr a'i llunio yn barod i ffon fesur y syrfewr pan ddôl heibio. Ceryddai unrhyw blentyn a redai hyd ben y domen hir, gan fod 'ffon ei fara' yn dibynnu ar lun a mesur y domen. Temtasiwn fawr, wrth gwrs, i ni'r plant oedd troedio yn rhywle heblaw sarn galed y ffordd. Rhedem ar hyd ben y cloddiau gan gamu o un garreg sigledig i'r llall. Nid oedd tomen fras gerrig y sir ond her arall i'w goresgyn ar ein ffordd o'r ysgol. Ond o gofio llafur yr hen wr a'i cododd a'r arian prin a enillai, cywilyddaf am erio e d sangu troed ar ei fara a caws.

* * *

I'w barhau yn y rhifyn nesaf.

Chwilio am Drefnydd Golff yn Llanrug



Mae Canolfan Cartrefi Gwyliau Brynteg, Llanrug ar fin agor cwrs golff newydd 9 twll ar gyfer preswylwyr y ganolfan. Maent yn chwilio am **Drefnydd Golff** i edrych ar ei ôl. Mae'n swydd ddelfrydol i berson â diddordeb mewn golff, ac i berson wedi ymdddeol.

Mae gan Bennaeth y Clwb, Keith Burt, 22 mlynedd o brofiad yn edrych ar ôl lawntiau proffesiynol. Mae'r cwrs newydd yn 4 erw o faint, gyda'r twll hiraf yn 124 llath a'r byrraf yn 57 llath.

Bydd dyletswyddau'r Trefnydd Golff yn cynnwys edrych ar ôl y siop golff, trefnu cystadlaethau, cymryd archebion ar gyfer gwersi a gemau, a gwerthu cynnyrch.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â Swyddog Personel Brynteg ar 871374 erbyn dydd Llun, Mehefin 5, 2000.

Wythnos y Gofalwyr 12-18 Mehefin, 2000

Beth yw Gofalydd?

Dychmygwch y gallai hyn ddigwydd i chi: geni plentyn ag anabledd difrifol; rhywun annwyl yn cael ei anafu mewn damwain car neu'n cael strôc; priod oedrannus a'i ymddygiad yn newid yn sydyn; partner sydd ddim bellach yn ymateb i'ch cariad a'ch gofal.

Rydych yn awr yn Ofalydd

Mae eich bywyd wedi newid yn sylfaenol Mae effaith hyn ar eich bywyd chi ac ar aelodau eraill o'r teulu yn medru bod yn arswydus a gall y gost fod yn anferth — yn bersonol, yn emosiynol ac yn ariannol.

Gofalwyr yw y rhai sydd yn edrych ar ôl pobl oedrannus, yr anabl neu y rhai sydd yn dioddef o salwch tymor hir a gallant fod yn deulu, ffrindiau neu gymdogion. Mae gofalwyr yn gwneud cyfraniad enfawr i'n cymdeithas. Maent yn dal ati oherwydd dyletswydd a chariad, ac yn ymdrechu er mwyn galluogi i'w hanwyliaid aros gartref.

Beth sydd gan Cynnal Gofalwyr i'w gynnig:

Weithiau, mae gallu siarad â rhywun sydd yn fodlon gwrando yn gallu bod yn help. Gallwn gynnig clust i wrando a gellwch rannu teimladau'n gyfrinachol. Hefyd darperir gwybodaeth am y gwahanol wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr. Mae nifer o grwpiau cefnogi'n cael eu cynnal mewn nifer o fannau trwy'r ardal. Mewn argyfwng gellwch ffonio ein llinell gymorth 24 awr ar 0345 573570.

Am fanylion pellach ffoniwch ni ar 01248 370797 neu galwch i mewn i'r swyddfa o fewn y swyddfa bost yn 60 Ffordd Deiniol, Bangor.

Taith Ysgol Brynrefail i Ffrainc



Sian a Charlotte

Hwyllo Tywod yn Arromanches

Chwerthin wrth weld pawb yn gwneud ffyliaid o'i hunain!

Stephanie Williams
Delyth Pritchard (bl.10)

Roeddwn yn wlyb domen ac yn dywod i gyd ar ôl y profiad!

Kate Beard (b.10)

Cefnogwch ein Hysbysebwy

'Ffantastic' oedd barn Llio Angharad Hughes (bl.10) Beth am gael lle tebyg yma?

Hwyl yng nghanol yr oerfel meddai Bethan Roberts (bl.10)


Andros o hwyl medd Ffion Cathy a Lori (bl.9)

Roedd yn sbort ceisio rheoli'r iot, dim peth hawdd hyd yn oed ar dywod!

Donna Griffiths (bl.10)

Hanes y daith yn llawn ar y dudalen ganol.

CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffon:
(01286) 675754



CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782



Uned 1A BRYNAFON
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

Campwyr o Fri!



Mathew, Nikki, Lucy a Nia

Ar ddydd Sadwrn, 13 o Fai teithiodd pedwar disgybl o'r ysgol i lawr i Gaerdydd i gystadlu ar ran Clwb Gymnasteg Eryri ym Mhencampwriaeth Cymru.

Ar ddiwedd y cystadlu brwd dyma sut y safai'r pedwar:

Mathew Pike (bl.9) yn Gyntaf yng nghystadleuaeth y bechgyn hŷn.

Lucy Stevens (bl.9) yn Gyntaf

a Nia Wakeham (bl.8) yn Ail yng nghystadleuaeth y genethod hŷn.

Daeth tîm A yn Gyntaf ac roedd Lucy yn y tîm yma tra roedd y tîm B yn Ail gan gynnwys Nia a Nikki Hill (bl.7).

Da iawn chwi a daliwch ati, efallai y gwelwn y campwyr yma yn cynrychioli Cymru rhyw ddydd.

Mabolgampau Ysgolion Gogledd Gwynedd



Diwrnod gwlyb a diflas ar gaeau Ysgol Treborth ym Mangor ond brwdfrydig iawn oedd y cystadlu.

Cafodd Ceirion Owen ddwy record, tipyn o gamp gan gysidro'r tywydd, 11.6 eiliad oedd ei amser am y 100 metr a 25.25 eiliad oedd ei amser am y 200 metr. Llongyfarchiadau cynnes iawn iddo.

Daeth Ryan Davidson yn Gyntaf yn y ras 300 metr; Eifion Williams yn ennill y ras 1,500 metr; Chris Williams yn Gyntaf am daflu'r ddisgen a Thîm Cyfnewid Brynrefail ddaeth gartref yn Gyntaf.

Cafwyd llu o 2il, 3ydd a 4ydd gwobrau gan y tîm bechgyn dan 15. Da iawn pawb ohonoch.

Daeth Nia Jones adref yn Gyntaf yn y ras 100 metr dan 17 mewn amser o 13.6 eiliad, oedd hefyd yn record newydd. Llongyfarchiadau iddi hithau hefyd.

Yn ogystal â hyn cafwyd sawl 2il, 3ydd a 4ydd gwobr i'r timau bechgyn dan 17 a'r merched dan 15 a dan 17.

Da iawn chwi i gyd a gobeithio am fwy o lwyddiant i chi i gyd yn y dyfodol.

NEWYDDION O YS

Taith Ffrainc Ebrill 13-18, 2000



O flaen y Notre Damme.

Wedi taith hir o Calais i Paris, cyrraedd y gwesty a ac yna'n hwyrach ymlaen mynd allan i flasu'r enwog fywyd Ffrengig. Profiad gwahanol iawn!

Awen a Rebecca (bl.9)

Golygfeydd Paris yn anhygoel, Tŵr Eiffel, y Notre Damme a'r Sacre Coeur yn fythgofiadwy.

Cyfle i gymysgu â'r bobl leol a gweld sut oedd safon ein Ffrangeg yn y 'sesiynau i'r gohebwyr ifanc'.

Mathew Barlow,
Sarah Roberts
a Ryan Davidson (bl.9)

Roeddyn ni i gyd wedi disgwyl am y trip ac ni chawsom ein siomi. Roedd y gwesty ym Mharis a'r Chateau du Molay yn Bayeux yn ardderchog, ac roedd ein stafell ni yn un o'r rhai mwyaf yn y Chateau! Moethus iawn.

Aneurun Williams
Danny Yates (bl.9)

Fe wnaethom fwy nhau bod ar ein gwyliau gyda'n ffrindiau ac heb ein rhieni! Roedd defnyddio ein sgiliau Ffrangeg ar y bobl leol yn hwyl, roedd yn tres bien!!

Sian Griffiths
Charlotte Bellis (bl.10)



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL



ANGEN CODI CLODDIAU O UNRHYW FATH A FFENSIO?

Cysylltwch ag

R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216

WALIO
A
FFENSIO

GOL BRYNREFAIL

Adroddiad gan fyfyrwyr Ffrangeg y Chweched Dosbarth

Ychydig wythnosau yn ôl, rhwng Ebrill 13 a 18, bu deugain a dau ohonom ni, ddisgyblion blynyddoedd 9 i 13 Ysgol Brynrefail ar ymweliad â Ffrainc, oddi tan arweiniad Pennaeth yr Adran Ffrangeg, Mme Sylvie Gartau, ynghyd â Mr Dylan Parri, Mrs Megan Davies a Mr Elfyn Roberts.

Ar ôl siwrnai flinderus (ond gwerth chweil) yno, treuliom y prynhawn cyntaf ym Mharis ar gwchdaith o'r enw 'Bateaux Mouches' ar yr afon Seine, gan weld y Notre Dame, y Tŵr Eiffel ac amryw o adeiladau crand eraill. Y diwrnod wedyn cyrhaeddasom ein cartref am yr wythnos, sef y Chateau du Molay, plasty godidog nid nepell o ddinas hanesyddol Bayeux, yng nghanol mwynder cefn gwlad Calvados, Normandi. Yn wir, bu Napoléon Bonaparte ei hun yn treulio'i wyliau yn y plas hwn.

Ni ellir dadlau i ni i gyd gael digonedd i'w wneud a'i weld tra

yn Normandi. Yn y prynhawniau a'r boreau aethom i farchnadoedd lleol, mynd i hwylio tywod, gweld y Tapestri Bayeux, gweld y traethau enwog lle cafwyd y glaniadau 'D-day', yn ogystal â llawer o bethau eraill.

Hefyd, byddai'r hwyl yn parhau wedi inni gyrraedd yn ôl yn y plas, gyda gweithgareddau fel helfa drysor, sesiwn carioci, disco a'r bythgofiadwy gystadleuaeth 'gwisgo fel rhywun enwog'!

Do wir, fe gawsom daith ardderchog yn Ffrainc. Hoffem ni felly, fel y Chweched Dosbarth a aeth yno, ddiolch ar ran pawb o'r disgyblion i'r athrawon am eu hymdrechion diflino i'w gwneud hi'n gystal taith, ac i gwmni Travelbound am edrych ar ein holau yn y chateau, oherwydd hebddyn nhw ni fuasai'r daith yma'n bosibl. *Merci beaucoup!*

Geraint Edwards, Alun Gaffey
Elin Dafydd, Siân Green
Rhian Williams, Sarah Jones
Karen Birbeck



Ar y Bateau Mouche.

Er gwaetha'r diffyg cwsg, roedd pawb yn frwdfrydig am 7 o'r gloch y bore i gychwyn ar yr anturiaethau draw yn Normandi.

Wedi blasu'r croissants, crepes a'r pain du chocolat, diolchodd pawb na laniodd yr un broga ar eu plât na darganfod yr un falwen yn y salad!

Rhaid diolch i'r holl athrawon, a staff y chateau am wneud ein gwyliau yn un bythgofiadwy ac wrth gwrs mae lefel ein Ffrangeg wedi gwella'n aruthrol.

Bethan Jones, Sara Barlow
Erin Eifion, Lowri Morris
(bl.11)

Gwylia gora 'rioed! Dyna oedd teimladau Joe Hill (bl.10)

Y Tapestri Bayeux
Cael gweld yr enwog dapestri yn brofiad bythgofiadwy yn ôl Bethan Roberts (bl.10)

Diddorol iawn oedd barn Cenin a Karen (bl.9)

Chateau du Molay
Lle bendigedig i aros ac adloniant gyda'r nos yn fywiog a diddorol.

Karen Leadbitter (bl.10)

Siopa
Siopa yn Cite d'Europe yn fwynhad llwyr meddai'r siopaholics Nia Jones, Manon Davies, Gwen Rowlands (bl.10)

Profiad Gwaith

Aeth y mwyafrif helaeth o'r flwyddyn i leoliadau sy'n berthnasol i'w dyheadau gyrfaol. Ar y cyfan cafwyd atborth positif iawn ac mae'r profiadau wedi cadarnhau i lawer un beth fydd eu cam nesaf. I ambell un arall mae'r profiad wedi helpu iddynt benderfynu mai dim y math yna o waith fyddai'n addas iddynt hwy.

Hoffai'r ysgol unwaith eto ddiolch yn fawr iawn i'r cyflogwyr hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i gefnogi a rhoi profiadau mor fuddiol i aelodau o'r chweched dosbarth.

De Ffrainc

Ar y 10fed o Fai, 2000 agorodd y 'Palais de Festival' ei drysau i ddathlu'r 53ydd Cannes Festival yn Ne Ffrainc.

Roeddwn yn ddigon lwcus i gael treulio fy mhrofiad gwaith yno yr union bryd pan oedd yr Wyl Ffilmiau fwyaf adnabyddus trwy'r byd i gyd yn cael ei chynnal.

Roedd mynd i Ffrainc yn gyfle gwerth chweil i wella fy Ffrangeg a thrwy gydol yr wythnos cefais gyfle i weithio gyda llawer o dramorwyr. Rhoddodd hyn lawer o hyder i mi i gyfathrebu trwy'r Ffrangeg yn fy ngwaith yn y Swyddfa Dwristiaeth.

Mwynheais y profiad a'r oriau hamdden pan gefais y cyfle i fynychu'r Wyl Ffilm. Profiad gwyb heb os nac oni bai.

Catrin Pepper (bl.12)

Ysgol Goluro Glauc Rossi

I'r Glauc Rossi School of Make-up' yn Llundain yr es i ar fy mhrofiad gwaith. Eidales yw Glauc Rosi sydd yn un o'r goreuon yn ei maes ac mae wedi gweithio gydag enwogion fel Meg Ryan, Naomi Campbell a Pierce Brosnan; felly braint yn wir oedd cael fy nysgu ganddi am yr wythnos.

Cefais groeso cynnes iawn gan Glauc a'i myfyrwyr, sy'n dod o bob cwr o'r byd, rhai o wledydd egstotig iawn fel Thailand.

Yn ystod yr wythnos cefais brofiadau diddorol wrth roi color ar fy nghyd-fyfyrwyr a chael fy nefnyddio fel model ganddynt hwy, yn ogystal a phrofiadau eang.

Fel arfer byddai cwrs deuddeg wythnos yn yr ysgol yma yn costio bron i chwe mil o bunnau ond roeddwn i yn lwcus iawn i gael fy mhrofiad yn rhad ac am ddim.

Profiad bythgofiadwy yn wir.
Jennifer Jones (bl.12)

Milfeddygfa yng Nghaerdydd

Cael mynd i'r filfeddygfa yn Gabalfa lle mae llawer o anifeiliaid ecsotig fel madfall a pharot yn ogystal ac anifeiliaid anwes mwy cyffredin fel cŵn a chathod yn dod i gael eu trin.

Fy ngwaith pennaf oedd bwydo a glanhau'r anifeiliaid

ond fe gefais flas ar yr ochr arall hefyd. Gweld y milfeddyg yn rhoi llawdriniaeth a chynnal syrjeri. Dyna beth oedd yn ddiddorol, ac yn fy ysgogi i weithio'n galed fel y câf innau rhyw ddydd fod yn filfeddyg.

Ceri Hughes (bl.12)

Profiad Gwaith — Royal Liverpool Philharmonic Hall

Ar fy wythnos profiad gwaith dewisais fynd i Lerpwl i'r Royal Liverpool Philharmonic Hall. Yno cefais y cyfle i wrndo ar gyngherddau yn ogystal â gwneud gwaith swyddfa.

Bob amser cinio, a'r haul yn tywynnu, byddwn yn rhuthro i lawr i'r siopau ac yn treulio fy amser yn crwydro o siop i siop yn chwilio am fargen.

Un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd cael gwyllo'r gerddorfa'n ymarfer o'r bocs gorau yn y neuadd. Dyma'r bocs yr eisteddodd y Frenhines ynddo ddwy flynedd yn ôl i wrando ar gyngerdd. Ond dwi'n siŵr na chafodd hi erioed y fraint o gael cerddorfa gyfan yn perfformio iddi hi ei hun yn unig.

Siân Green

Wimbledon

Yn dilyn fy mhrofiad gwaith yn Wimbledon o'r 8 i'r 12 o Fai hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am fy nghefnogi drwy gynnig y lleoliad i mi. Roedd yn gyfle ardderchog i gwrdd a chymdeithasu â llawer o bobl newydd yn ogystal â datblygu a defnyddio sgiliau newydd.

I feddwl mai ymhen rhyw fis bydd enwogion y byd tenis yn ymgynnull ar y lawntiau byd enwog lle bûm i yn edrych a breuddwydio am chwarae fu hun!

Er nad oeddwn nhw yno ar hyn o bryd, cefais gyfarfod â Jeremy Bates, un o sêr y gorffennol a fu'n chwarae hyd yn ddiweddar. Braint oedd hyn i mi yn wir!

Hefin Roberts (bl.12)

Ysgol Gynradd Llanrug

Ar yr 8fed o Fai, mentrodd Kelly Williams a minnau, Elfed Morgan Morris, ar wythnos o brofiad gwaith gyda'n gilydd i Ysgol Gynradd Llanrug. Coeliwch chwi fi, fe fu hi'n wythnos llawn profiadau yn wir!

Cyrraedd yn gynnar ar fore Llun a chyfarfod yr athrawon, yna yn barod at waith.

Ein tasg oedd ceisio dysgu'r plant gan roi nifer o brofiadau iddynt fel eu bod yn datblygu yn eu gallu ac yn eu personoliaeth. Roedd gwneud hyn yn golygu gwneud gwaith Mathemateg, Ieithoedd a Chwaraeon gyda'r disgyblion.

Wythnos o brofiad gwaith bendigedig oedd yr un a gawsom yn ysgol Gynradd Llanrug. Rwy'n siŵr ein bod ni'n dau'n gytun ein bod wedi dewis y maes gwaith cywir ar gyfer ein dyfodol.

Elfed Morgan Morris
a Kelly Williams (bl.12)

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Mynd 'adref

Dyma drydydd rhan dyddiadur Bethan Williams o Fethel a deithiodd i Nepal i ddysgu mewn ysgol arbennig yno.

11.09.99

Arglwydd, am daith! Cychwyn am dri un p'nawn a chyrraedd am ddeg bora wedyn. Dw i'n gw'bod fod trigolion Nepal yn fyr ond fasa mymryn o le i goesau yn ddefnyddiol iawn i ferch hir fel fi. Roedd y mhen ôl i ar y sêr, fy mhen i yng nglin Sarah, fy nghoesa' i ar hyd canol y bws a 'nhraed i yn cosi trwyn y llanc gyferbyn â fi!

Stopiodd y bws rhyw ddwywaith i ni gael ymestyn ein coesau a gwagio'r bledren. Ymlwybrais drosodd at y 'twll yn llawr' ac i fewn a fi ar ôl rhyw wr bonheddig orffen cyfrannu at y domen wastraff. Cyfrannu? Roedd o wedi cyfrannu digon i lenwi pob cae riwbob yng Nghymru! Wrth gwrs, dal y nhrwyn oedd raid i mi a mynd ymlaen â'r weithred!

Roedd y bws yn orlawn. Plant yn cael eu taflu i eistedd ar unrhyw lin rydd, y dynion i gyd yn eistedd ar dô'r bws hefo'r bagiau a'r geifr a phawb yn hollol fodlon yn gwrando ar fiwsig Hindi'r holl ffordd! Profiad a dweud y lleia'!

Wrth ddringo i fyny'r bryn i gyrraedd ein cartref am y misoedd nesa' bu bron i mi â chwydu! Rownd a rownd ochr y bryn gan afael yn dynn wrth i mi weld pa mor uchel oeddwn i. Roedd Sarah a fi yn gweddio ac yn sgrechian am yn ail tra roedd pawb arall yn dal i wrando'n hamddenol ar y gerddoriaeth.

Pan gyrhaeddais Fikkal diflannodd hunlla'r bws yn ddigon sydyn. Daeth y prifathro i'n cyfarfod ni. Er iddo orfod disgwyl am ddwy awr am fod ein bws ni'n hwyr, roedd yna dal wên fel giât arno. Fe ddangosodd y pentref i ni: nifer o stondinau defnyddiau a ffrwythau a phawb yn gwenu'n glên. Roeddwn i'n dechrau teimlo'n enwog oherwydd yr holl sylu a'r sibwrdd wrth i ni gerdded heibio!

Yna fe aethon ni 'adref'. Sut dŷ fydd o? Fydd y teulu'n hoff ohona i? Fydden nhw'n deall Saesneg? Cwestiynnau heb atebion. Cwestiynnau a oedd am gael eu hateb mewn ychydig funudau.

Ma'r teulu'n fendigedig. Ma' nhw'n gofalu ein bod ni'n hapus drwy'r adeg a hwythau wastad yn gwenu. O be' wela i ma' 'na tua 17 ohona ni'n byw yn y tŷ pren a tho sinc: tri o hogia'r chweched dosbarth mewn 'stafell â dau wely ynddi; mam, tad a dau o blant (perchnogion y tŷ) sy'n rhannu gwely dwbl; athro mathemateg a'i wraig a'u plentyn; chwaer y fam a'i phlentyn; nith y fam, a Sarah a fi. Mae'r plant yn dod i'n 'stafell ni o hyd i sylu ar y 'tegannau dieithr'. Ma' nhw wedi mopio hefo'r 'dictaphone' a methu coelio'r holl bensiliau lliw.

Dw i'n hapus, yn mwynhau'r profiad hyd yn hyn. Mae Sarah a fi'n cyd-dynnu'n grêt ac yn dod i adnabod ein gilydd yn well bob dydd. Ma' codi am chwech bob bora yn newid mawr i mi ond dw i'n siŵr y do' i arfer, yn yr un modd y do' i arfer hefo bwyta llond plât o reis am wyth yn y bore!

Y cam nesaf ydy dysgu. Dw i'n cychwyn fory ... HELP!

DRAENOG

Mae ambell un yn cael dillad newydd, ac ambell un yn cael sgidiau newydd, ac ambell un yn cael torri ei wallt; ac ambell un yn cael DANNEDD NEWYDD cyn mynd i ganu mewn cyngerdd go bwysig. Dyna gafodd un o aelodau Côr Meibion Dyffryn Peris yn ddiweddar. Ac er mwyn gwneud yn siŵr bod y dannedd yn edrych yn iawn — aeth y canwr i ymarfer o flaen y drych brynhawn y cyngerdd. 'Do, re, mi, ... TO, MI, so do.'

Yn anffodus llwyddodd i'w frathu ei hun â'r dannedd newydd nes bod ei dafod a'i

Coleg Cymuned

Y newyddion diweddaraf o Goleg Menai

Yn y Maes

Fel y gwyr nifer o ddarlennwyr yr Eco bellach penodwyd Anne Parry Jones, Llanrug i weithio fel gweithiwr maes i'r coleg yn yr ardal hyd ddiwedd Mehefin. Mae Anne eisoes wedi cyfarfod nifer o gynrychiolwyr o wahanol grwpiau cymuned yn Llanberis a Llanrug ac y mae mwy nag un dosbarth wedi ei sefydlu yn yr ardal. Mae dosbarth nos mewn Sbaeneg yn cael ei gynnal yn Menter Fachwen ar nosweithiau Mercher er enghraifft, ac yn ddiweddar sefydlwyd dosbarth Hanes Lleol, hefyd ar nosweithiau Mercher, yn Angorfa, Llanberis.

Mae nifer o ardal Llanberis hefyd wedi mynegi diddordeb mewn mynychu dosbarth Cyfrifiaduron i Ddechreuwyd a gobaith y coleg yw y byddwn yn dechrau cynnal dosbarth o'r fath y mis yma yn y Ganolfan Dysgu

Gydol Oes newydd sydd wedi ei sefydlu yn y Llyfrgell yn Llanberis.

Am unrhyw fanylion pellach yn ogystal â'r holl newyddion diweddaraf am yr hyn sydd gan y coleg ar y gweill yn ardal yr Eco gallwch gysylltu gydag Anne Parry Jones trwy linell gymorth y coleg ar (01248) 383333.

Arddangosfa diwedd blwyddyn

Bydd arddangosfa diwedd blwyddyn y myfyrwyr Celf a Dylunio yn cael ei hagor yn swyddogol gan yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas, Llywydd y Cynulliad, nos Wener, Mehefin 16 ar safle Parc Menai. Bydd ar agor rhwng 7 a 9 y noson honno, rhwng 10 a 4 ar y dydd Sadwrn a rhwng 10 a 7 rhwng Mehefin 19-21. Galwch heibio i weld y gwaith — cewch wledd!



Dau fyfyrwr ar y cwrs Celf a Dylunio y llynedd yn arddangos eu gwaith.

ATODIAD LLANBERIS

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Nos Wener, 12 o Fai cynhaliwyd Cyngerdd Blyneddol y Côr yn

wefusau wedi cleisio'n arw. Bu raid iddo anghofio popeth am ganu y noson honno gan fod ei geg yn brifo cymaint. Bro dawel iawn oedd hi am ddyddiau heb sŵn ei ganu.

Eglwys St Padarn Llanberis. Fe gafwyd gwledd o noson yng nghwmni y 'tri thenor' sef John Eifion, Glyn Williams a Dafydd Edwards, ac roedd y tri mewn hwyliau da. Fe gafwyd amrywiaeth o eitemau ganddynt o'r llon i'r lledf. Hefyd roedd yn werth bod yno i wrando ar Annette Bryn Parri oedd yn cyfeilio iddynt, ac hefyd yn rhoi datganiad ei hun ar y piano. Diolch i bawb a fu yn gysylltiedig â'r noson.



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWC H UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor

9-7pm

9-5pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Etholwyd Miss Phyllis Ellis, Penisarwaun yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen am y flwyddyn 2000-2001.

Fe gytunodd y Cyngor i Menter Fachwen ymgymeryd â'r gwaith o wneud y meinciau y bwriedir eu gosod ym mhob un o bentrefi'r plwy i ddathlu'r milflwydd. Bydd plac metel yn cynnwys y geiriau 'Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 2000' yn cael ei osod ar bob mainc. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd y meinciau hyn yn cael eu parchu, ac na fyddant yn cael eu fandaleiddio.

Bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod materion perthnasol i'r plwy, yn enwedig trafndiaeth ar ffyrdd gwledig, a'r broblem sy'n wynebu pentrefi gwledig o geisio llenwi Tai Cyngor sy'n wag.

Cytunwyd i'r clerc gynrychioli'r Cyngor mewn seminar yn Ewloe i drafod 'Adfywio Cymunedol' dan nawdd y Cynulliad.

Hysbyswyd fod cais wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd iddynt osod arwyddion 'Ildiwch' ger Llys Myfyr a Chapel Cysegr, Bethel yn ogystal â Groeslon Tyddyn Hen.

Roedd y Cyngor yn bryderus ynglŷn â'r ffaith fod enwau hen bonciau Chwarel Dinorwig yn cael eu cyfieithu yn llythrennol i'r Saesneg. Ni allai'r Amgueddfa Genedlaethol sicrhau fod yr enwau traddodiadol yn cael eu defnyddio.

Penderfynwyd i drafod yn y Cyngor nesaf y posibilrwydd o gael cyfarfodydd arbenig o bryd i'w gilydd i drafod materion o bwys sy'n codi yn achlysurol.

Cyflwynwyd nifer o geisiadau cynllunio i sylw'r Cyngor. Nid oedd yna wrthwynebiad i'r un ohonynt.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

DIOLCH. Dymuna Doris Owen, 6 Pentre Helen ddiolch i bawb am eu caredigrwydd, yr ymweliadau, galwadau ffôn, blodau a'r holl gardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref yn dilyn ei damwain.

CYMEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG. Nos Fercher, Mai 3 cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Parchg Tegid Roberts yn llywyddu. Estynnwyd croeso i'r wraig wadd, Mrs Paul, Matron Cartref Nyrsio Penisarwaun. Difyr ac addysgiadol oedd gwrandio arni yn darllen a thrafod adnoddau o'r Beibl gyda'r aelodau yn cymryd rhan. Diolchwyd iddi gan Miss Jean Moeller. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Gymdeithas nos Lun, Mehefin 5 am 7 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys.

LLWYDDIANT. Llonyfarchiadau i Iwan ac Euros Williams, Hafle, Rhos y Faenol ar ddod yn Bencampwyr Ewrop 2000 am yr ail flwyddyn yn olynol gyda Band Prês Cymdeithas Adeiladu Swydd Efrog ('Hammonds Sauce' gynt). Mae Iwan yn chwarae'r Flugel ac Euros y Corned.

Pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

BEDYDD. Yn Eglwys Llandinorwig ar ddydd Sadwrn y Pasg, Ebrill 22 bedyddiwyd Anest Mair Price, merch Barry a Gillian Price, a chwaer fach Iwan.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir cyfarfodydd Cymdeithas y Beiblau, bnawn Sul, Mehefin 28 yn Eglwys Llandinorwig gyda Gwasanaeth y Plant am 2.00 o'r gloch.

Cynhelir Cymanfa Ganu yn yr hwyr yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen am 6.00 yr hwyr. Arweinydd y Gân fydd Mair Huws, Llanrug a cheir eitemau gan Gôr Dyffryn Peris. Gwneir casgliad tuag at y Gymdeithas yn y ddau gyfarfod. Bydd bws yn cael ei drefnu a cheir y manylion eto.

EBENESER. Cynhaliwyd y Cyfarfod Pregethu blynnyddol ddydd Sul, Mai 14. Y Pregethwr gwadd eleni oedd y Parchg Dafydd

Job, gweinidog Eglwys Efengylaidd Gymraeg Bangor.

CYNGOR EGLWYSIG. Cynhaliwyd oedfa Cymorth Crystnogol yn Ebeneser nos Lun, Mai 8 dan lywyddiaeth y Parchg Tegid Roberts. Cafwyd anerchiad gan y Parchg John Pritchard a chymerwyd rhan gan aelodau'r gwahanol eglwysi. Diolch yn arbennig i bawb a fu'n casglu yn yr ardal yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.


UNDEB CAERNARFON. Mae eglwys Ebeneser yn un o 11 o eglwysi yn ardal Caernarfon sydd yn croesawu cyfarfodydd blynnyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni. Cynhelir yr Undeb yng Nghaernarfon ar Fehefin 18-21.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Daeth tymor y Gymdeithas i ben am eleni, ond eisoes cynhaliwyd pwyllgor i drefnu gweithgareddau'r hydref a'r gaeaf nesaf. Ceir manylion pellach yn y man.

Diolchiadau

Dymuna Tegid a Nant Roberts a'r hogiau o 'Arwel', Llanrug, ddiolch o galon am y llu cardiau a'r llythyrau o gydymdeimlad a anfonwyd atynt ar achlysur marwolaeth mam a nain annwyl yn Nhremadog yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael a ddaeth i law tuag at ymchwil i Gancr.

Hefyd dymuna Gwilym, Tecwyn, Gwynfor a theulu'r ddiweddar Olwen Williams, 2 Fron Deg, Rhostryfan (yn enedigol o Ddeiniolen) ddiolch yn gynnes iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Diolch am bob ymweliad, galwadau ffôn a chardiau sy'n rhy niferus i'w hateb yn unigol. Diolch i'r Parch Gwynfa Roberts am ei wasanaeth ac i staff Ysbyty Bryn Seiont am eu gofal tyner. Diolch hefyd i Glwb Mountain Rangers am baratoi y lluniaeth ac i'r ymgymerydd, Gwyn Jones am eu gwasanaeth trylwyr.



Ar ei ffordd o'i gwaith yn un o westai Llanberis yr oedd un wraig arbennig pan glywodd sŵn a'i dychrynodd trwy ei heinioes — Dim ond tyllu ANNod oedd yno wedi'r cwbl.

CWMNI CYFRIF

Gwasanaeth cadw llyfrau

Cyfrifon busnes

£ Cymorth marchnata £
a chynlluniau busnes

Cymorth ar sut i baratoi
ceisiadau am arian

amcan un (objective one)

Cysylltwch â lorwerth Llewelyn



01248 716454

**GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .**

**RHOSTIO
MOCHYN**



AR GYFER POB ACHLYSUR

- ★ Cig o ffermydd lleol
- ★ Partïon rhwng 40 a 400!
- ★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- ★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

**JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188**

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

CLYCHAU'R GRUG. Y mae'r côr ar y funud yn brysur yn diddanu ymwelwyr yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Cyflwynodd y côr £50.00 i Gronfa Steffan gan ddymuno pob bendith iddo yn America.

CAPEL Y RHOS. Penwythnos olaf Ebrill aeth criw o 25 o'r Ysgol Sul i Goleg y Bala. Thema'r penwythnos oedd 'Antur anturus lesu' dan ofal y Parch Catrin Roberts, Prestatyn a fu'n byw yn Llanrug am gyfnod. Y Parch Bryn Williams, un o hogia'r ardal oedd yn cynorthwyo ac Andy sy'n gweithio yn barhaol yn y coleg. Eleni roedd plant o Aberangell a Chaernarfon yn cyd-wersylla efo nhw. Cafwyd penwythnos difyr ac addysgiadol wych a'r plant wedi llwyr fwynhau, er yn flinedig yn cyrraedd adref. Dyma lun o'r criw. Yn anffodus nid yw Mr Hughes yn y llun gan mai ef oedd y dyn camera.

CYMORTH CRISTNOGOL. Yn ystod wythnos Mai 14 - 20 casglwyd y swm o £795.62 yn ardal Llanrug tuag at Cymorth Cristnogol. Diolch i'r canlynol am roi o'u hamser i gynorthwyo yn y gwaith, ac i bawb a gyfrannodd. Miss Llinos Davies, Mrs Doris Evans, Mrs Buddug Hughes, Mr Arthur Jones, Mrs Bessie Jones, Mr Hefin Jones, Mrs Jane Jones, Mr James Jones, Mrs Ann Parry-Jones, Mr a Mrs Selwyn Lloyd, Mr Iolo Llywelyn, Mr a Mrs Martin, Mrs Bethan Owen, Mr Alf Parry, Mrs Helen Parry, Mr a Mrs Gareth Roberts, Mrs Gwenda Roberts, Mrs Ann Thomas, Mr a Mrs Bob Thomas, Mrs Gwenda Thomas, Mrs Gwyneth Thomas, Mrs E. Whiteside Thomas, Mr a Mrs Cliff Williams, Mrs Eirian Williams, Mrs Gwenno Williams, Mr Idwal Williams, Mrs Megan Williams, Mrs Menna Williams, Mrs Sian Burston.

GŴYL YSGOLION SUL CAERNARFON A'R CYLCH. Bore Sul, Mai 21, 2000 am ddeg o'r gloch cynhaliwyd Gŵyl Ysgolion Sul Caernarfon a'r Cylch yng Nghapel y Rhos, Llanrug. Roedd y capel dan ei sang gyda 165 o blant yn aros yn eiddgar i dderbyn Tystysgrifau am ddysgu'r Maes

Llafur. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Dafydd Lloyd Hughes, Gweinidog yr Eglwys, gyda'r canu o dan arweiniad medrus Mrs Mair Lloyd Hughes a Mrs Carys Jones ar yr organ.

Ein gŵr gwadd i roi anerchiad i'r plant oedd Mr Dafydd Meredydd Jones (Dafydd Du). Rhoddodd anerchiad bwrsasol, syml yn ysgogi y plant o bwysigrwydd Ysgol Sul. Talodd deyrnged o ddiolch i'w athrawon ef pan yn blentyn yn yr Ysgol Sul. Dywedodd ei bod yn ffrainc ac yn anrhydedd ganddo fod yn bresennol.

Cymerwyd rhan gan Ysgolion Sul y cylch, Bethel Waunfawr, Croesywaun Waunfawr, Capel y Rhos Llanrug, Noddfa Caernarfon, Seilo Caernarfon, a Siloam Bontnewydd. Braff oedd gweld cynrychiolaeth o Ysgol Sul Caethro, gan mai newydd ail-sefydlu yr Ysgol Sul yno y maent. Yn ystod yr ŵyl gwnaed casgliad tuag at un o blant yr ardal, Steffan Pierce Jones, Llys Eryri sydd angen triniaeth yn yr America. Trosglwyddwyd y swm o £205.11 i Gronfa Steffan gyda phob dymuniad da a bendith iddo ar ei daith.

Dymuna trefnwyr yr ŵyl eleni yng Nghapel y Rhos ddiolch i bawb am bob cymorth i wneud yr ŵyl mor llwyddiannus.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau mawr i Dyfed a Rhian, Tryfan, Rhes Arfonia ar enedigaeth mab bach, Robin. Hefyd i Dafydd ac Eirianwen Whiteside Thomas ar ddod yn Daid a Nain ac i Mrs Enid Whiteside Thomas ar ddod yn hen nain.

GWAELEDD. Anfonwn ein cofion gorau i Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt sydd ar hyn o bryd yn yr Ysbyty yn Lerpwl.

MARWOLAETH. Trist yw cofnodi marwolaeth Marina, Fron Olau, yn 40 oed. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w phriod, Bryn a'r hogia, ei mam, Mrs Roberts a'i brodyr a chwaer a'r teulu oll.

Hefyd, bu farw Mr William Jones (Billy), 11 Hafan Elan, gynt o Gwm-y-glo. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i'r teulu sef

Elizabeth, Rhiannon a Glenda, a'r wyrion a'r wyresau.

LLONGYFARCHIADAU i Adrian Evans, 4 Glanffynnon ar ei benodi yn Bennaeth Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug. Pob lwc i ti Adrian a da clywed dy fod yn gwella hefyd.

PEN-BLWYDD HAPUS i Mrs Mair Jones, Glanmoelyn fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn fuan. MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Mai 9. Is-Lywydd 2000 - 2001 fydd Megan Roberts a'r is-Drysorydd fydd Jean Roberts. Etholwyd Meryl Green yn aelod newydd o'r pwyllgor. Cytunodd Pat Jones i gynrychioli'r gangen ar yr is-bwyllgor Chwaraeon; Beryl Thomas ar yr is-bwyllgor Anabl; Phyllis Ellis a Myfanwy Parry ar is-bwyllgor y Dysgwyr; Annwen Owen fydd Gohebydd y Wasg a Gwenda Roberts i fod Dosbarthwr 'Y Wawr'.

Gwirfoddolodd nifer o aelodau i fynd o amgylch y pentref i gasglu at Ymchwil y Galon rhwng Mehefin 26 a Gorffennaf 1.

Llongyfarchwyd Mrs Eirianwen Thomas, Bron y Nant ar ddod yn nain a Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar ar ddod yn hen nain. Ganwyd mab bach, Robin, i Dyfed

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Joanne a Derlwyn, Bryn Berllan ar enedigaeth mab — Cai Patrick ar Ebrill 12, brawd bach i Tomos. SYMUD Tŷ. Pob hapusrwydd i Philip, Audra a'r plant (Marvista gynt) yn eu cartref newydd yn Llanrug.

CROESO cynnes iawn i Graham a Sian Land sydd wedi ymgartrefu yn Marvista, Ceunant. Pob hapusrwydd i chi.

a Rhian Thomas, Tryfan, Rhes Arfonia

Anfonwyd cofion cynnes at Mrs Jennie Williams, Bodfair a dymunwyd adferiad buan i Mrs Gwyneth Boyer, mam Nan Humphreys, Pant Bryngwyn.

DYDDIADAU I'W COFIO.

Mehefin 13: Gwibdaith. Bws yn gadael sgwâr Llanrug am 6.00 o'r gloch.

Mehefin 16: Pwyllgor ar ran yr Anabl yn Arfon yn cynnal Bore Coffi a Stondinau yn Festri Ebeneser, Caernarfon rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch. Elw at Gancr y Fron.



Plant ysgol Sul Capel y Rhos a dreuliodd benwythnos yng Ngholeg y Bala.

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

DIOLCH. Dymuna Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd, y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yng Nghaer a hefyd tra yn aros yng nghartref ei merch. Diolch yn fawr iawn.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMANFA PRESPYTERIAID DOSBARTH PADARN.

Cynhaliwyd y Gymanfa eleni bnawn a nos Sul, Mai 7 yng Nghapel Coch, Llanberis. Cafwyd cyfarfodydd llwyddiannus a bendithiol. Gwobrwywyd Rhian George, Anna George, Caryl Jones ac Awen Jones, aelodau o Ysgol Sul Brynrefail am eu gwaith ym maes yr Arholiad Llafar. Arweinydd y gân yn y ddau gyfarfod oedd Mrs Lowri P. Roberts Williams, Godre'r Coed. Rwy'n siŵr ein bod yn ddyledus i swyddogion ac aelodau Capel Coch am y paratodau manwl a thrylwyr a'r croeso arbennig a estynnwyd ddiwrnod y Gymanfa. Diolch am drefniadau rhwydd y ddwy oedfa ac i'r Parch D.J. Pritchard am ei lywyddiaeth drefnus. Cafodd pawb eu digoni â lluniaeth o'r radd flaenaf rhwng yr oedfaon. Hyfrydwch yn ystod oedfa'r hwyr oedd gwrandao ar ddetholiad o'r Cantata 'Gloddest Bywyd' yn cael ei berfformio mor raenus gan gôr o aelodau cydenwadol o Lanberis. Daeth cynulliad da ynghyd i'r ddwy oedfa a chafwyd ymateb rhagorol gan y cynulleidfaoedd i emyn-donau'r plant ac i'r emyn-donau hen a newydd yn adran yr oedolion yn y Detholiad. Rhaid talu diolch i Mr Gareth Jones am ei frwdfrydedd ynglŷn â holl weithgareddau'r Gymanfa ac yn arbennig ei waith wrth yr organ. Mae llawer o uchafbwyntiau yn ystod y dydd yn mynd i aros yn hir yn y cof. Diolch am gael bod yn rhan o'r Wyl arbennig hon yn y flwyddyn 2000. **CYMDEITHAS Y CAPEL.** Nos lau, Mai 11 cynhaliwyd ail gyfarfod y tymor o'r gymdeithas yn y Festri. Daeth cynulliad rhagorol ynghyd a chadeiriwyd y cyfarfod gan Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Wedi defosiwn dan arweiniad Mrs Einir Gwyn, estynnwyd croeso cynnes gan y

Cadeirydd i westai'r noson, sef Mrs Eryl Roberts, Llanrug. Pleser pur oedd gwrandao ar ei hanerchiad am ei phrofiadau amrywiol yn dilyn ei galwedigaeth fel Therapydd Galwedigaethol. Diolchwyd yn ddiffuant iddi am noson mor addysgiadol i'r gwrandawyr gan Miss Alice Williams. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Dilys Morris a Mrs Mair Davies. Hysbyswyd ar y terfyn i'r Chwirydd gasglu'r swm o £79.50 tuag at Sasiwn arbennig y Mileniwm a gynhelir eleni ar Fai 24 yn y Drenewydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Mehefin 8 pryd y disgwylir y Parch Gareth Maelor Jones, Llanwnda i annerch. **YR OEDFA.** Nos Sul, Mai 14 pleser oedd cael croesawu Mr Meirion Evans o Lerpwl, un o blant yr Eglwys, fel ein cennad. Daeth cynulleidfaoedd deilwng ynghyd ac yn eu plith aelodau o'r teulu a ffrindiau. Hyfrydwch oedd gweld Mrs Ada Jones, Ty'n Twll yn bresennol yn yr oedfa.

Trefn yr oedfaon am Suliau Mehefin fydd:

4: Mr John H. Hughes, Llanberis am 5.30;

11 (Pentecost): Mr Alun Rowlands, Bangor am 10 y bore; 18: Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel am 5.30 pryd y gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;

25: **SUL CYMDEITHAS Y BEIBLAU.** Cynhelir yr Oedfaon eleni yn Eglwys Crist, Llandinorwig am 2 a 6 o'r gloch.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Daeth yr aelodau ynghyd nos Lun, Mai 15 yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Darllenwyd llythyr y mis gan y llywydd. Prif fater y noson oedd trafod yr Argymhellion y pleidleisir arnynt yn y Cyfarfod Blynnyddol a gynhelir yn Wembley, Llundain. Eleni rhoddir tri mater gerbron y gynhadledd i'w dwyn i sylw'r Llywodraeth: yr angen am barhau i dalu budd-daliadau yn y Swyddfeydd Post Lleol; ariannu Hospis Plant ac, adfer y cyfleusterau triniaeth a therapi a gwtogwyd yn lleol i gleifion sy'n dioddef o effeithiau'r strôc. Yn dilyn trafodaeth ar y materion croesawyd Mrs Vera Price, Cwm-y-glo a wahoddwyd fel beirniad i'r gystadleuaeth addurno het. Aeth



Enillwyr cystadleuaeth addurno het Sefydliad y Merched, Brynrefail: (o'r chwith) Elinor Williams, Helen Morris, Gwenllian Edwards a'r beirniad Vera Price.

y wobwr gyntaf i Mrs Helen Morris a'r ail a'r trydydd safle i Mrs Gwenllian Edwards a Mrs Elinor Williams. Paratowyd y te gan Mrs Verna Jones a Mrs Helen Morris. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Nerys Roberts, oedd Mrs Elinor Williams.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf nos Lun, Mehefin 17. Hon fydd noson y Trip Dirgel blynnyddol. **PWYLLGOR SAFLE HEN YSGOL BRYNREFAIL.** Daeth

cynrychiolaeth o'r Pwyllgor ynghyd i'r Festri nos Fawrth, Mai 16. Yn bresennol roedd y pensaer Mr Graham Hughes ynghyd â'r Swyddog Amgylchedd, Mr Brynmor Hughes. Bu trafodaeth bellach ar ffurf yr adeilad ynghyd â'r cyfleusterau fydd ar gael, yn bennaf o safbwynt y crefftwy'r a fydd yn rhentu'r unedau newydd, gan egluro'r bwriadau drwy gyfrwng model a baratowyd, a chynlluniau'r pensaer. Anfonir holiadur maes o law i denantiaid tebygol i gadarnhau yr anghenion priodol.

Bydd yr adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar y sylfeini gwreiddiol, rhyw ddwy draean o hyd yr hen adeilad. Bydd y llawr isaf yn cynnwys pum uned ynghyd â'r cyfleusterau angenrheidiol i'r crefftwy'r. Ar yr ail lawr ceir saith uned arall. Yma hefyd bydd y brif fynedfa, cyfleusterau i'r anabl, cegin a bwyty dan do gwydr, lifft a grisiau. Bydd tair uned bellach ac ystafelloedd perthnasol ar drydydd lefel. Bydd y safle yn cynnwys mannau addas i lwytho a

dadlwytho cynhyrchion a safleoedd parcio i foduron yn unig. Bydd y wal gyferbyn â'r llythyrdy yn cael ei dymchwel ac arosfan yn cael ei hadeiladu ar gyfer bysiau fydd yn defnyddio'r safle i ddadlwytho teithwyr fydd yn ymweld â'r Gandolfan.

Yn gynnar y mis hwn, bydd y model yn cael ei arddangos yn Festri'r Capel ar gyfer y rhai sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus yno. Os carai unrhyw un ymweld yn bersonol â'r Festri, cysyllter â Mr David G. Ellis, Gweledfa. Yna am gyfnod bydd y model yn cael ei arddangos yn Swyddfa'r Post. Erbyn mis Gorffennaf hyderir y bydd y cais cynllunio wedi ei ganiatáu ac, o ganlyniad, bydd y gwaith yn dechrau yn gynnar yn yr hydref ac yn ymestyn dros naw neu ddeng mis.

Codwyd nifer o gwestiynau yn ystod y cyfarfod sy'n hynod berthnasol i'r pentrefwyr. Nid oes addewid fod dim ar hyn o bryd yn digwydd i'r tir sy'n ymestyn o flaen yr adeilad tuag at Lôn y Felin. Mynegwyd anfodlonrwydd â'r trefniant gyda'r bysiau. Ble byddant yn parcio tra mae'r ymwelwyr ar y safle? A chymaint o dir ar gael pam na ellid gwneud defnydd ohono i barcio bysiau? Sicrhawyd yr aelodau y bydd y tir o gwmpas yr adeilad ei hun a'r safleoedd parcio moduron yn cael sylw blaenllaw a'i dirlunio i safon arbennig. O safbwynt diogelwch bydd yr holl safle yn cael ei oleuo a'i warchod gyda'r offer technegol angenrheidiol.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir cyfarfodydd Cymdeithas y Beiblau, bnawn Sul, Mehefin 28 yn Eglwys Llandinorwig gyda Gwasanaeth y Plant am 2.00 o'r gloch.

Cynhelir Cymanfa Ganu yn yr hwyr yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen am 6.00 yr hwyr. Arweinydd y Gân fydd Mair Huws, Llanrug a cheir eitemau gan Gôr Dyffryn Peris. Gwneir casgliad tuag at y Gymdeithas yn y ddau gyfarfod. Bydd bws yn cael ei drefnu a cheir y manylion eto.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug
(01286) 674416 neu (07880) 847161

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy'r

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn Hafan Elan, nos Lun Mai 8. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mrs D Jones, Mrs M Roberts, Mrs S Hughes, Mrs K Jones a Mrs Menna Roberts. Trafodwyd materion yn codi o'r pwyllgor a gafwyd yng Nghricieth yn ddiweddar a rhai materion eraill. Ein gŵr gwadd oedd Mr Peter Taylor a chafwyd ganddo sgwrs ddiddorol gyda sleidiau ar ei ymweliad â Thailand a Bangkok.

Yn gofalu am y baned oedd Miss Meira Williams. Rhoddwyd y raffl hefyd ganddi ac fe'i henillwyd gan Mrs Hilda Orritt. Diolchwyd i Mr Taylor ac i Meira gan Ms Sandra Birbeck. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Olwen Jones, Cefn Bwlch a Mrs Mary Roberts, Tyŵ Ffridd ar ôl derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd. NOSON O BINGO. Cynhaliwyd noson o Bingo yn y Ganolfan Gymdeithasol nos Fercher, Mai 3 tuag at Apêl Steffan Price a gwnaed elw o £373. Dymuna'r trefnwyr ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu cyfraniad tuag at yr achos teilwng hwn.

DYMUNIADAU GORAU i blant y pentref sydd yn eistedd arholiadau y tymor hwn.

YSGOL CWM-Y-GLO. Y mis hwn rydym yn ffarwelio ag un eneth fach o flwyddyn 1 ac yn croesawu un arall i'r un dosbarth. Pob dymuniad da i Mari Fflur Rowlinson yn ei hysgol newydd yn Llanllechid ac i'w theulu wrth ymgartrefu yn Rachub. Croeso cynnes iawn atom i Sioned Mai Jones o Ben-y-groes. Gobeithiwn yn wir fod teulu Sioned wedi setlo yn Nolaon a llongyfarchwn ei rhieni ar enedigaeth Ffion Wyn hefyd.

Ar ddiwedd y tymor roeddem yn ffarwelio â Miss Sharon Ellis oedd wedi bod gyda ni am beth amser fel cymhorthydd dosbarth. Cyflwynwyd anheg ar ran y plant a'r athrawon iddi am ei hymroddiad i ni a dymunwn y gorau i Miss Ellis yn y dyfodol.

Enillwyr clwb yr ysgol am fis Ebrill oedd Mrs Avril Jones, Glan

y Don a Mrs Margaret Williams, Bryn — y ddwy o Gwm-y-glo. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Yn ddiweddar cawsom fore diddorol iawn yng nghwmni Mrs Lesley Wilson, mam Hannah a Rebecca. Iddewes yw Mrs Wilson a daeth atom i sôn am arferion eu crefydd o gwmpas amser y Pasg Iddewig. Daeth a nifer o greiriau gyda hi — yn eu mysg blât go arbennig i ddal y swper brys fel yr Hebraid yng ngwlad yr Aifft. Gorfu iddynt adael yn ystod y nos cyn i'r Eifftiaid eu herlid i'r anialwch. Diolch i Mrs Wilson am fore hynod o addysgiadol ac am rannu ei phrofiadau teuluol gyda ni.

Ddechrau mis Mai cynhaliwyd noson o Fingo yn yr ysgol i godi arian i Steffan Prys Jones. Trefniant pentrefol oedd hwn ond caredm ddiolch i bawb ddaeth i'r ysgol i gefnogi'r achos teilwng hwn. Pob dymuniad da i'r teulu bach ac anfonwn ein cofion annwyl at Steffan.

Mae gennym nifer o ddigwyddiadau o'n blaenau ac fe fydd hi'n gyfnod hynod o brys rhwng nawr a diwedd y tymor. Un digwyddiad pwysig iawn fydd ymweliad Bl6 ag Ynys Enlli. Trefniant gan Gyngor Sir Gwynedd yw hwn i ddathlu'r Mileniwm a bydd pob plentyn o'r oedran yma drwy'r sir yn cael cyfle i dreulio diwrnod ar yr ynys arbennig yma.

Hen Deuluoedd Gwaun Cwm Brwynog

Mae amryw o bobl yr ardal wedi bod yn holi pa bryd y bydd llyfr Rol Williams ar 'Hanes hen deuluoedd Gwaun Cwm Brwynog' yn cael ei gyhoeddi, a da deall fod posibiladau y cyhoeddi y llyfr cyn diwedd y flwyddyn gan Wasg Pantycelyn. Gan nad yw Cyngor Llyfrau Cymru yn rhoi cymorthdal i argraffu llyfrau ar hanes lleol, deëllir mai nifer cyfyngedig o'r llyfr a fwriedir ei gyhoeddi.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Martha Mary Jones Craig y Bela, Fachwen

Nos Wener y Groglith bu farw un o gymeriadau mwyaf hoffus yr ardal wedi gwaeldd hir, yn ei chartref i gychwyn ac, ers mis Chwefror, yn Ysbyty Gwynedd a'r Eryri — lle bu farw.

Brodor o Pen Isa' Rhos, Seion oedd Martha Mary Jones, neu Pritchard bryd hynny. Bu farw ei thad yn ieuanc a gadawyd ei mam yn weddw i godi nythaid o blant. Hyn a wnaeth hefo arddeliad a chariad diflino.

Ar gychwyn y rhyfel daeth Martha Mary i weithio i Waelod y Gwaith — NICACO i bobl y fro. Yno cyfarfyddodd ac Islwyn. Datblygodd y garwriaeth a chyn diwedd y rhyfel priodwyd y ddau yng Nghapel Annibynwyr Caernarfon. Ganwyd mab iddynt, David Roberts ar ei dystysgrif geni — ond Defi i'w fam a Dafydd Fachwen i'r gweddill o'r byd. Er 1944 Fachwen oedd cartref Martha Mary hefyd.

Cymuned glos oedd yr ardal yn y pedwardegau — ardal gwbl Gymreig a chymdogol — pawb yn gwneud trwy'i gilydd. Buan y sefydlodd Martha Mary yn Anti Mary i'r to ieuengaf — a gwraig yr Hen Is i bawb arall. Yr oedd ganddi gyfrifoldeb mawr o'r amser y daeth i Craig Bela. Fel yr oedd disgwyl y dyddiau hynny, rhaid oedd gofalu am y teulu i gyd — yn hen ac ieuanc.

Bu cyfnod pan fu Anti Meri yn edrych ar ôl Thomas Jones, Meri ei wraig, Mrs Pritchard ei mam, a Dafydd ac, yn aml galwai ei theulu yno ac ni fethodd erioed a hulo lluniaeth a llawenydd iddynt. Yr oedd ganddi amser i'w thŷ a'i thylwyth, wrth gwrs, ond yr oedd ganddi amser i bobl eraill hefyd. Yr oedd geiriau'r emyn 'Rho imi'r nerth i wneud fy rhan...' yn gweddu iddi i'r dim.

Fel yr oedd ei chyfeillion yn y fro yn heneiddio, ni fethodd erioed yn ei chymwynas. Mae gennyf brofiad personol o hynny.

Hyd 1972 bu'n selog yn yr achos hefyd, ac eto yng nghorff yr wythnos gofalai am lanhau y capel ac yn aml rhoi'r blodau i harddu'r Sêl Fawr.

Yn 1966, yn frawychus o sydyn, colodd ei phriod annwyl — yr Hen Is — ond beth bynnag oedd ei gofid a'i galar, ymwrolodd ac aeth ymlaen hefo'r gweddill o'i

bywyd — pedair blynedd ar ddeg ar hugain ohono!

Ni welais neb hefo cystal dealltwriaeth a chydymdeimlad â'r byd byw a hi. Yr oedd ganddi yr hen gariad tuag at anifeiliaid, da byw a'r da pluog a gysylltid â gwerin tŷ a thwlc a thyddyn. Hyd y diwedd soniai am Begw'r beagle, Ebony'r gath a'r ceiliog ffesant crand oedd yn arfer ymweld â hi bob dydd. Bydd, bydd rhain hefyd yn ei cholli.

Heb os, bydd oerfel ei cholli yn dod drwy aml glo tai annedd y fro. Hi, yn anad neb, oedd yn 'gofalu' am gymaint ohonynt, gyda chefnogaeth Dafydd. Credaf fod Anti Meri yn un o'r rhai ffodus hynny mewn bywyd oedd yn gweld da ym mhawb ac, os na fedrai gael dim da ynddynt, yr oedd yn cadw ei chynghor.

Heb unrhyw amheuaeth bydd y golled i'w theimlo fwyaf yn Craig y Bela. Bydd tŷ gwag yn disgwyl Dafydd o'r chwarel, ac ni fydd ond atgofion am nain, a chadair wag, yn wynebu Aaron a Bledwyn, na chât byth ddigon o'u cwmni. Yn ystod y dydd bydd Begw ac Ebony ar goll yn lân — oherwydd y mae'r olaf o gymdeithas unigryw wedi mynd ar ei holaf dro.

Y Parch Idris Thomas (Deon Gwlad) a minnau ymgwymerodd â'r gwasanaeth yn Craig y Bela, (yn ôl ei dymuniad) a ni arweiniodd dyrfa fawr ar lan y bedd ym mynwent Llanddeiniolen brynhawn lau, Ebrill 27, pan wenodd yr haul, ac yr oedd blagur ar y pren a chân mwyalchen o'r hen ywen.

Cefais gyfle yn ystod y dyddiau cyn y cynhebrwng i feddwl amdani — ac ymhen ychydig ffurfiodd yr englyn hwn:

Hi fu'n gref mewn cynefin —
hi fu'n ddoeth,
Hi fu'n ddewr o ruddin,
Hi fu'n hael, ei help fu'n win,
Yn gariad, yn berl gwerin.

Norman Closs

Gweithgareddau'r Haf

Cofiwch dynnu llun o
wahanol weithgareddau
misoedd yr haf a'u
hanfon efo pwt o stori
i'r Eco!

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MERCHED Y WAWR. Bu cyfarfod o'r gengen yn neuadd yr ysgol gynradd nos Fercher, Mai 10 dan lywyddiaeth Ann Lewis. Dymunwyd gwellhad buan i Delyth Williams ar ôl iddi gael triniaeth yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Mary Evans ar enedigaeth dwy wyres ac hefyd Rhys Hughes a enillodd y gystadleuaeth Unawd Prês yn yr Wyl Offerynnol yn Eisteddfod Môn 2000 a Huw Llywelyn Jones ar ennill yr Unawd Operatig agored yng Ngŵyl Gerdd Caer.

Cafwyd noson arbennig o ddiddorol yng nghwmni Huw ac Enid Griffiths o Borthaethwy yn sôn am y cyfansoddwyr enwog — Haydn, Mozart, Beethoven a Schubert. Roedd Huw yn dangos sleidiau ac Enid yn adrodd hanes ac yn chwarae ar y piano ddarnau o waith y pedwar cyfansoddwr yn fedrus iawn.

Diolchwyd iddynt ar ran y gangen gan Deilwen Hughes. Y gwestwagedd oedd Bet Owen, Gwyneth Williams a Rita Williams. Enillwyd y raffl gan Margaret Williams.

Bydd y gangen yn mynd ar eu taith ddirgel flynyddol nos Fercher, Mehefin 14. Y bws yn cychwyn o Benrhos am 6 o'r gloch.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyd mis Ebrill oedd £20: Mair Price, Caernarfon (49); £10: Elizabeth Jones, Tyddyn Oer (92); £5: Manon Gwynedd, Cadnant (214); Kathleen Bell, Tŷ Newydd (220); Nancy Humphreys, Ty'n Rhos (149); Jean Hughes, Nefyn (166); Iola Jones, Hafan (16); Margaret Williams, Llanddwyn (82); Jack Foulkes, 6 Tan y Cae (28); Gwynfor Ellis, 5 Rhos Lan.

CARTREF ST. TEILO. Diolch yn fawr iawn i Mrs Glenys Griffith, yr arweinyddes ac i gôr Blodau'r Grug am wledd o noson ar Ebrill 10 yn y Cartref. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw yn gwrando ar y côr ac yn cyd-ganu hen ffefrynnau. Dymuniad pawb oedd i'r côr frysio'n ôl.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, Mai 16 cafwyd noson ddifyr iawn i gau tymor y Gymdeithas. Daeth 46 o'r aelodau ynghyd heb wybod i ble yr oedd y noson i orffen. Ar ôl teithio i fyni

ac i lawr, i'r chwith ac i'r dde, yn ôl ac ymlaen roedd pryd wedi ei drefnu ar gyfer yr aelodau yn Seiont Manor. Ar ran yr aelodau diolchodd Glenys Griffith i Maud a Nerys am drefnu'r noson.

CYDYMDEIMLO. Ddechrau'r mis, wedi gwaeledd byr, bu farw Mrs Anne Hughes, Ty'n y Maes. Estynnir pob cydymdeimlad â Gareth, Martin a Bridget yn eu profedigaeth.

Estynnir ein cydymdeimlad hefyd â theulu'r diweddar Huw Roberts, Penrhos Villa a fu farw yn ddiweddar.

CYMORTH CRISTNOGOL. Yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol aeth nifer o aelodau eglwys i'r pentref o amgylch i gasglu rhoddion at yr achos teilwng hwn. Cafwyd casgliad anrhydeddus o £500.00. Diolch i'r casglwyr a'r cyfranwyr am eu cyfraniadau hael.

URDD. Cafwyd mis prysur iawn yn yr Adran. Bu'r aelodau ar Helfa Drysor o gwmpas y pentref, cafwyd noson o Fabolgampau ac hefyd Taith Feiciau i Gelli Gyffwrdd.

Ar fore Sadwm, Mai 20 daeth tua 30 o aelodau i iard yr ysgol i olchi ceir. Diolch i'r oedolion ddaeth i gynorthwyo a chadw trefn ar y plant. Codwyd tâl o £1.50 y car. Ffordd wych o godi arian ac roedd pawb wedi mwynhau yn arw. Roedd ambell un yn wlyb iawn! Gwnaed elw o £150. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd gan ffrindiau a phentrefwyr. Defnyddir yr arian i dalu costau cludiant y plant fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Cafwyd cyngerdd gan y plant nos Fercher, Mai 24. Roedd yn bleser eu gweld yn perfformio eitemau eisteddfodol. Mae'r plant a'u hyfforddwyr wedi bod yn brysus iawn dros y misoedd diwethaf. Pob lwc i chi i gyd yn y 'Steddfod. Bydd y côr, grŵp pop, grŵp dawnio disgo, grŵp dawnio creadigol, drama a dawnsiwr disgo unigol — Kelly Cavanagh, i gyd yn cystadlu ym Mro Conwy. Hefyd pob lwc i Elan, Hanna Gwyn, Louis a Gwilym hefo'u Gwaith Celf.

Ni fydd yr Adran yn cyfarfod eto tan fis Medi. Cafwyd blwyddyn hynod o lwyddiannus a diolch i Anti Sian a Gwen am drefnu rhaglen mor ddiddorol, ac i'r holl rieni fu'n eu cynorthwyo gyda'r gwahanol weithgareddau.

Mi fydd rhai o'r plant yn cael cyfle i gystadlu ym Mabolgampau'r Cylch ym mis

Mehefin.

LLONGYFARCHIADAU i Kelly Louise Jones, 12 Bro Rhos ar ei llwyddiant diweddar mewn cystadleuaeth trin gwallt. Daeth Kelly yn gyntaf allan o gant o gystadleuwyr trwy Ogledd Cymru a'i choroni'n Brif Steilydd Gwallt y Flwyddyn.



Plant Adran yr Urdd Bethel ar eu ffordd i Wersyll yr Urdd Glanllyn.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCH! HOLWCH!
ffonlwch (01286) 830609
— **TENEUWCH** —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
Caernarfon 673513

Ffôn Symudol: 07774 496616



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MARWOLAETH. Yr ydym fel ardal yn anfon ein cydymdeimlad llwyrfa â Mr Dafydd Robert Jones, Craig y Bela, Fachwen yn ei brofedigaeth o golli ei fam, Mrs Martha Mary Jones. Bu farw yn yr ysbyty yng Nghaernarfon. Bu'r gwasanaeth claddu yn Eglwys Llanddeiniolen a rhoddwyd ei chorff i orffwys yn y fynwent. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Canon Idris Thomas a Mr Norman Closs Parry.

CYFLE ARALL. Gan na fu ymateb i'r uchod ar ôl iddo ymddangos yn yr Eco y mis diwethaf, gofynnwyd ymi gan swyddog o Goleg Menai ei roi yn yr Eco unwaith eto. Os na ddangosir diddordeb wedi hyn byddwn yn colli'r cyfle. Cyrsiau ydynt, yn rhad ac am ddim, i bob oedolyn. I'w cynnal yn y Ganolfan, byddant yn gyfeillgar ac yn anffurfiol. Bydd angen beth bynnag wyth yn y dosbarth ac fe fydd modd eu cynnal yn ystod y dydd neu'r gyda'r nos. Mae llawer o gyrsiau ar gae, yn meddwl dechrau y cyrsiau yma ym mis Medi os bydd diddordeb. Os oes gennych ddiddordeb a fuasech cystal â chysylltu â fi fel y gall Coleg Menai baratoi.

EIRA MIS EBRILL. Ar y dydd Llun, Ebrill 3 cawsom storm go hegar o eira. Pob man yn wyn dan eira pan fu inni godi yn y bore ac, nid yn annisgwyl, cyn 9 y bore fe aeth y trydan allan, ond y tro yma dim ond o gwmpas tair awr y bu i ffwrdd, nid tri diwrnod fel ag y bu yn y gorffennol. Pethau wedi gwella, ond tybed a oes modd gwella eto?

Darllenais yn yr Herald rai dyddiau yn ôl bellach mai Deiniolen a Llanberis a gafodd y gwaethaf o'r storm. Tybed pa le yr oedd Dinorwig?

Ni allaf yn fy myw gredu y papur. Nid wyf yn gwybod am y sefyllfa yn Llanberis, ond gan imi fynd drwy Ddeiniolen yn ystod y prawn, doedd dim cymhariaeth. Yr oedd yn hollol wahanol yno a'r ffordd yn glir. Yn ystod y bore fu fe i fws fynd i'r wal rhwng Glan Gors a Bryn Sardis.

Ychydig ddyddiau wedi'r storm a'r tywydd wedi gwella, a gwaig o'r ardal yn teimlo ar ôl te y buasai yn gallu gwneud hefo tipyn o awyr iach, ond doedd arni ddim awydd cerdded, felly dyma berswadio ei gŵr i fynd am droi'r gamdda fawr hefo'r car. Fe aeth y car a'r ddau i fyny at Groeslon Uchaf yn hwylus

iawn ond yna, yr oedd lluwch eira ar draws y ffordd. Yn ffodus, neu yn anffodus, fe aeth y car trwyddo ond dim ond i ddod i fwy o eira yn uwch i fyny, a'r car erbyn hyn yn methu mynd yn ôl nac ymlaen. Ar ôl cryn drïo ni fu llwyddiant. Penderfynodd y wraig fod yn rhaid mynd i chwilio am gymorth, felly dyma ddechrau cerdded i lawr am Bryn Sardis. Pan yn cyrraedd yno yr oedd y car a'r gŵr yno ar unwaith. Fe fu iddo lwyddo i'w gael i lawr. O do, fe gafodd y wraig awyr iach. Yr oedd y ddau yn falch o baned ac eistedd wrth y tân ar ôl y fath orchwyl. Buaswn yn disgwyl i'r gŵr wybod yn well na theithio ar y ffordd yma ar ôl eira! Beth am aros cyn mynd i'r fan yna tan yr haf.

CYMANFA M.C. Cynahliwyd y gymanfa eleni yng Nghapel Coch, Llanberis. Arweinydd y gân oedd Mrs Lowri Prys Williams, Brynrefail, a'r organydd oedd Mr Gareth Jones, Llanberis. Llongyfarchiadau i blant Ysgolion Sul yr ardal am wneud eu gwaith mor ragorol. Da iawn chwi blant, daliwch ati. Hefyd mawr ddiolch i Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian am roi ei hamser a'i chartref i gynnal yr Ysgol Sul. Diolch yn fawr Mrs Hughes.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir cyfarfodydd Cymdeithas y Beiblau, bnawn Sul, Mehefin 28 yn Eglwys Llandinorwig gyda Gwasanaeth y Plant am 2.00 o'r gloch.

Cynhelir Cymanfa Ganu yn yr hwyr yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen am 6.00 yr hwyr. Arweinydd y Gân fydd Mair Huws, Llanrug a cheir eitemau gan Gôr Dyffryn Peris. Gwneir casgliad tuag at y Gymdeithas yn y ddau gyfarfod. Bydd bws yn cael ei drefnu a cheir y manylion eto.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

**AR HIR OSOD
Bwthyn, Bethel**

Bwthyn 3 ystafell wely, 2 ystafell fyw, cegin, baddon gyda chawod. Cysgu 3/4.

Dim DHS. Dim anifail. 2 ref. Corgi 'certificate' nwy.

Am fwy o fanylion cysylltwch ac Elen ar (01286) 673022.

**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael

**Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)**

Dy Capel, Dinorwig Atgofion am

Trist oedd darllen yn Eco'r Wyddfa am gau Capel M.C. Dinorwig. Aeth fy meddwl yn ôl i'r cyntaf o Ebrill, 1949 pan aeth Ifor, fy niweddar briod, a minnau o Fachwen i gadw Tŷ Capel Dinorwig, ac yno am un mlynedd ar ddeg. Yr oedd gennym ddau o blant, Marian Wyn yn ddwyflwydd ac Eilir yn hanner blwydd. Buom yn hapus iawn drwy'r amser.

Y Parch Ieuan Bryn Williams oedd y Gweinidog yr adeg hynny, a'r teulu: Mrs Beryl Williams, Iwan Prys, Angharad a Bethan Bryn. Yr oeddynt yn gymdigion ardderchog. Roedd

rhyw brudd-der dros yr ardal pan ddaru nhw symud i Cyffylliog. Fu Dinorwig ddim yr un fath wedyn.

Daeth y Parch John Price Wynne a'r teulu yno wedyn a'r Parch Isaac Jones, ond nid oeddynt yn byw yn yr ardal a chredaf fod hynny wedi bod yn anffodus iawn.

Rwyf yn anfon llun o'r Gweinidog a Blaenoriaid yr Eglwys yn y pumdegau.

Daethom ni o'r Tŷ Capel ym Mehefin 1965 i fyw i Lanrug.

Ceridwen Williams
25 Hafan Elan, Llanrug



Gweinidog: Parch Ieuan Bryn Williams; R.O. Williams; Mr Williams (Ysgolfeistr); Thomas Elwyn Parry; Charles Evans; Owen Jones; Ifor Williams; Emrys Roberts.

Crwydro'r Amgueddfa



Elwyn Jones — Technegydd y Ffowndri yn brys yn y Ffowndri ac yn paratoi ar gyfer y digwyddiad 'Crwydro'r Amgueddfa' a gynhaliwyd ganol fis Mai.



**ORIEL
CWM**

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio Llundiau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556



Plant Ysgol Sul Croes y Waun a fu'n mwynhau helfa drysor Wyau Pasg i gasglu arian at y rhai a ddioddefodd ym Mozambique.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 80 oed. Gobeithiwn yn fawr eich bod yn teimlo'n weddol y dyddiau yma.

Bu Gwenno Owen, Glyn Awel yn dathlu cyrraedd ei un ar hugain mlwydd oed. Dymunwn yn dda i ti i'r dyfodol, Gwenno.

GWELLA. Gobeithiwn y bydd Mr OT Jones, Bryn Gwenallt a Mr Bill Lewis, Ael y Bryn yn gwella wedi iddynt orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Mae'n dda gweld bod leuan Parry, 8 Stad Pant y Waun wedi gwella ac yn gallu symud o gwmpas heb y baglau erbyn hyn. DYMUNWN yn dda i bob un sy'n sefyll arholiadau yn yr ysgol ac yn y colegau yn ystod yr wythnosau nesaf.

DYMUNWN bob hapusrwydd i'r teuluoedd sydd wedi newid aelwyd o fewn y pentref ac i'r rhai sydd wedi dod i'r pentref i fyw. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn hapus iawn yn y Waun.

LLONGYFARCHIADAU i blant y ddwy Ysgol Sul fu'n cymryd rhan, ac a dderbyniodd dystysgrifau am ddysgu'r maes llafur yn y Gymanfa

yng Nghapel y Rhos, Llanrug.

DIOLCH. Dymuna Derfel ddiolch i'w deulu, ffrindiau, cymogion a holl gymdeithas y pentref am y llu cardiau, galwadau ffôn, y rhoddion a'r gefnogaeth mae'n ei dderbyn yn dilyn ei ddamwain. Teimla Derfel fod y gefnogaeth yma yn 'donic' mawr iddo. Erbyn hyn mae Derfel wedi symud i ysbyty yn Southport. Yno caiff yr arbenigedd mae ei angen.

DYMUNIADAU GORAU. Gwn fod yr holl gymdogaeth am fynegi dymuniadau cynhesaf i Derfel ac yntau'n wynebu triniaeth mewn ysbyty arbenigol.

EISTEDDFOD Y PENTREF. Fe gynhelir yr eisteddfod eleni ar Dachwedd 11 yn y Ganolfan, hefo 'steddfod y plant yn y prynhawn a 'steddfod timau yn yr hwyr.

Os oes rhywun â diddordeb i ddod ar y pwyllgor cysylltwch â Heulwen Jones (650388).

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i deulu'r Bwthyn, Stad Croesywaun ar enedigaeth merch fach.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Clough, Ynysoedd ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach i'w merch, Sandy, a'i phriod.

NANT PERIS

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

TY'N LLAN. Dymuna holl drigolion y pentref ddymuno'n dda i Richard Treble a Llinos Parry sydd wedi penderfynu gadael y Vaynol Arms. Bu'r ddau yn ein plith am ddwy flynedd gan lwyddo i greu enw da i'r dafarn fel bwyty o'r safon uchaf. Dymuna Pwyllgor y Carnifal gynnig diolch arbennig iddynt am eu cydweithrediad parod a'u cyfraniadau hael tuag at garnifal blynyddol y pentref. Diolch unwaith eto a phob dymuniad da i Richard yn ei swydd fel darlithydd yng Ngholeg Menai ac i Llinos gyda'i menter busnes newydd. LLONGYFARCHIADAU i Jim ac Anne Cumberton ar eu penodiad yn denantiaid newydd yn Ty'n Llan. Braf iawn yw gweld teulu lleol yn symud i'r dafarn, er y gellir honni fod rhedeg tafarn yn y gwaed gan i deulu Anne fod yn denantiaid yno am nifer o flynyddoedd ar un adeg. Dymunwn yn dda iddynt yn eu menter newydd ac edrychwn ymlaen at nifer o nosweithiau llawen a difyr!

GWELLHAD BUAN i Eric Thompson, Tŷ'r Ysgol a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Yr ydym yn falch iawn o weld ei fod bellach wedi dychwelyd i'w gartref ac yn teimlo'n llawer iawn gwell.

CYDYMDEIMLAD. Fe'n syfrdanwyd oll fel pentref ar ddiwrnod Calan Mai, pan fu farw John Roberts, Glanrafon yn frawychus o sydyn yn ei gartref, yn 60 mlwydd oed. Roedd John yn enedigol o'r Nant ac wedi gwireddu breuddwyd oes drwy ddychwelyd i fro ei febyd i fwynhau ei ymddeoliad gyda'i briod, Gwenda, ers rhai blynyddoedd. Roedd yn ŵr poblogaidd a hynaws iawn ac wrth ei fodd yn crwydro'r fro, ac yn cymdeithasu ac yn sgwrsio. Bydd ei golled yn fawr. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w wraig Gwenda, ei blant Alwyn, Helen a Gareth, ac i'w frawd a'i chwaer yng nghyfraith, Gwynedd a Brenda.

DIOLCH. Dymuna Gwenda, Alwyn, Helen a Gareth, Glanrafon ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn

ddiweddar, yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl — John.

Rhennir y rhoddion a dderbyniwyd rhwng Tim Achub Mynydd Llanberis ac Ymchwil y Galon.

Cyngor Cymuned Llanberis

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanberis yn 'Angorfa' ar Mai 18. Etholwyd y Cyngorydd Dei Tomos yn Gadeirydd am y flwyddyn nesaf a'r Cyngorydd Helen Sharp yn Is-gadeirydd. Penderfynwyd fod aelodaeth o'r is-bwyllgorau i aros fel y llynedd. Gyda gofid y derbyniwyd ymddiswyddiad y Cyngorydd Dewi Ellis o'r Cyngor, a diolchwyd iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor a'r gymuned dros nifer o flynyddoedd.

Cyf-etholwyd Mrs Ann P. Jones, Garfield House yn aelod o'r Cyngor dros ward Llanberis.

Derbyniwyd adroddiad manwl ar gyflwr 'Angorfa' a diolchwyd i'r aelodau am eu gwaith. Penderfynwyd clirio dodrefn a chelfi o'r gegin er mwyn ei hadnewyddu.

I'r perwyl hwnnw, gofynnir ar i bob unigolyn a mudiad o fewn y pentref sydd â hawl ar unrhyw offer yn y gegin i gysylltu â'r Clerc neu unrhyw aelod o'r Cyngor cyn dydd Sadwrn, Mehefin 10. Ni fydd y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddodrefn neu gelfi a gaiff eu torri neu eu clirio o'r salfe ar ôl y dyddiad hwn.

Derbyniwyd atebion oddi wrth Gyngor Gwynedd a'r Heddlu ynglŷn â mesurau tawelu traffig a pharcio anghyfreithlon yn Nant Peris. Mynegwyd siom ynglŷn â'r ymateb ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Heddlu ynglŷn â phroblemau camymddwyn a fandaliaeth yng nghyffiniau Gwesty Glyn Afon, a phenderfynwyd anfon unwaith yn rhagor i'r Heddlu yn mynnu atebion llawnach.

Apeliwyd ar i'r aelodau gasglu gwybodaeth am gyflwr llwybrau cyhoeddus y fro a'u cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Byddai gwybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd hefyd yn werthfawr. Gyda'r wybodaeth, bwriedir cael arolwg o'r llwybrau cyhoeddus sydd wirioneddol angen sylw fel bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud amynt gynted ag y bo modd.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn 'Angorfa' ar nos Iau, Mehefin 15 am 7 o'r gloch.

AM OFFER Tŷ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501




STRYD FAWR
LLANBERIS

24 Gorffennaf
— 8 Awst

BRISBANE, AWSTRALIA

yng nghwmni Timothy Evans
(Llambod) ac Annette Bryn Parry

Manylion pellach am ein holl deithiau
(01286) 872777



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

(o'r dudalen gefn
(Un Tlws o Leiaf)

cartref. Y mae dyled y tîm i'r 'tri gŵr doeth' ar y pwyllgor — Elfyn Griffiths, Bryn Jones a Meic Roberts — yn fawr. Sawl gwaith y mae'r colofnau hyn yn canmol y criw bach sydd yn cynnal y fflam mewn sawl pentref. Wedi tymor hir, a orffenodd ar nodyn uchel iawn, dewiswyd Steffan Elidir yn chwaraewr y tymor, a Dewi Owen yn ddewis y chwaraewyr eu hunain o'r prif chwaraewr.

(o'r dudalen gefn
(Ai Ef Oedd y Gorau?))

Fangor yn y *Cheshire League*, a Chaernarfon yn y *Welsh League* ond Llanberis oedd y dynfa. Soniai am nifer o gemau ond yr un a safai allan oedd buddugoliaeth y Darans o 2-1 dros dim nerthol Porthmadog ar y Traeth tua 1950. Hen Gwpan Amatur Cymru oedd y gystadleuaeth, a dwy gôl Llanberis — un gan Emyr Jones — yn dod yn yr ugain munud olaf. Siom fwyaf Emlyn oedd na chafodd gap amatur yn ystod ei gyfnod 'aur' ym Mlaenau Ffestiniog. Daeth yn agos iawn, ac ambell un o 'hacs' y wasg yn ei gefnogi.

Cryfder Emlyn oedd ei allu i redeg am 90 munud. Roedd doniau trin pêl — driblo a phasio da ganddo — er mae'n cyfaddef mai peniwr gwael iawn ydoedd. Mewn oes arall, yn sicr, buasai wedi chwarae ar lefel uwch. Cafodd sawl cyfle yn ei arddegau, yn enwedig ar ôl perfformiad gwych i dîm y Blaenau yn erbyn tîm llawn Nottingham Forest. Yn anffodus, collodd ei dad yn ystod y cyfnod yma ac ni ddaeth ail gyfle.

Pleser mawr i Emlyn oedd 'rhoi rhywbeth yn ôl i'r gêm'. Yn y 70au, gyda Robert Hunt, arweiniodd Emlyn dîm ieuenctid Dinas Bangor i gipio Cwpan Cymru.

Yn ei lyfr cynhwysfawr o hanes clwb Llanberis mae Arwel Jones yn cyfeirio'n aml at un o wir gewri'r clwb, y Parch Herbert Thomas. Yr oedd y Parch â pharch mawr i ddoniau ac ymroddiad Emlyn Davies.

Mwynheais yr orig yn fawr iawn, a gobeithio bod yr erthygl yma yn fodd i ddiolch i Emlyn am ei gyfraniad i'r clwb arbennig hwn. Yn sicr, roedd tinc o siomiant yn ei stori, o gofio mor agos y bu i gyrraedd y safon yr oedd ei ddawn arbennig yn ei haeddu. Yr hyn a gofiai i yn y sgwrs gyda'r dyn diymhongar hwn, yw ei falchder ei fod wedi gallu cyfrannu trwy'i dalent i roddi adloniant i'w fro fabwysiedig.

Pen-blwydd Hapus Iawn a llawer ohonynt.

Enillwyr y Plât Ysgolion Eryri



Cafwyd adroddiad y mis diwethaf am lwyddiant y dewrion hyn:

Gethin Vaughan, Derfel Williams, Arfon Salisbury, Dion Owen, Philip Lyles, Michael Jones, Carwyn Roberts, Ben Boothroyd, Sion Emyr, Cefin Williams, Willie Mullane, Rhys Morris, Aaron Jones, Arron Watkinson, Gethin Jones, David Jones, Paul Hughes, Jonathan Gordon, Gari Jones, John Paul Jones.

Hogia Eryri yn Bencampwyr Prydain

Cynhaliwyd Ras Moel Eilio ar bnawn Sadwrn poeth, ond gyda gwynt cryf yn llesteirio'r rhedwyr ar hyd y grib uwchben Cwm Dwythwch. Eleni, am y tro cyntaf, roedd y ras yn ymgorffori Pencampwriaeth Rhyng-sirol Prydain yn ogystal a bod yn rhan o Bencampwriaeth Cymru, felly nid syndod oedd gweld bron i ddau gant o redwyr yn llenwi'r ffordd gul ger Llwyn Celyn.

Rhedwyr o Glwb Eryri a ddewiswyd i gynrychioli 'sir' Gogledd Cymru, a'r tîm hwnnw a gipiodd Bencampwriaeth Sirol Prydain, gyda'r pedwar rhedwr i gyd yn gorffen yn y dwsin cyntaf. Er mai Siggy Gould, cyfeiriannwr yn cynrychioli Sir Efrog oedd yn fuddugol, daeth Colin Donnelly o Ddinorwig yn drydydd yn y brif ras, ac yn gyntaf i'r rhai dros 40 oed. Fe'i dilynwyd gan James McQueen (7fed), Garry Rees Williams (9fed) a Russell Owen (12fed a thrydydd dros 40 oed).

Yn y gystadleuaeth i ferched, tîm Sir Efrog oedd yn fuddugol, gyda Gogledd Cymru yn drydydd. Jayne Lloyd o Gaeathro oedd y rhedwraig

gyntaf o Ogledd Cymru.

Ym Mhencampwriaeth Cymru, hogia Eryri oedd yn fuddugol ym mhob categori, gan ennill y tri safle cyntaf yn yr adran hŷn, y tri safle cyntaf yn yr adran dros 40 oed a'r ddau safle cyntaf yn yr adran dros 50 oed. Daeth Jayne Lloyd yn ail yn adran y merched.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' eich cyrraedd bydd trydedd ras Pencampwriaeth Cymru wedi ei chynnal, a honno yn rhan hefyd o Ras Bencampwriaeth unigol Prydain ar fynydd Cader Idris ger Dolgellau. Bydd hanner y tymor pencampwriaethol drosodd erbyn hynny, a siawns na fydd syniad go dda pwy fydd pencampwyr Cymru ar ddechrau'r mileniwm.

Campau'r Haf

**Mae'r Eco eisiau
gwybod am eich
stori chi.**

Yn ystod y mis nesaf hefyd cynhelir tair ras olaf Cynghair Rhedeg Mynydd Nos Fawrth, gyda'r ddwy olaf yn y fro hon. Bydd y ras gyn-derfynol yn cychwyn o Gwm-y-glo ar Fehefin 27, ac yna, wythnos yn ddiweddarach, bydd y diweddglô yn ras olaf y tymor o Lanberis. Y noson honno y penderfynir pwy fydd enillwyr y gwahanol gategoriâu am eleni, ac y mae siawns dda i nifer o'r gwobrau ddod i fro'r 'Eco'.

DRAENOG



Ddylia reffari ddim chwarae pêl-droed, neu mae peryg

iddo ddysgu castiau drwg i'r chwaraewyr. Be wnewch chi o'r creadur geisiodd gymryd cic cornel — a dim ond llwyddo i roi cic i'r polyn fflag? Lwcus nad oedd y BBC yno — neu mi fasa'r creadur wedi rhoi cic i'r MEIC!

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

A HEFYD
COFIWCH AM EIN
BeliBistro
Ffoniwch am fanylion

**Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis**

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**


(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

CROESAIR MEHEFIN



ENW.....

CYFEIRIAD.....

.....CÔD POST.....

Mae 1, 7, 19, 25, 32, 36, 38 ar draws a 37 i lawr o'r un teulu ac yn rhan o'r 46 ar draws.

Ar Draws:

4. Dyn mympwyol yn byw ar wely'r môr? (5)
10. Y rhai sy'n plygu gerbron (7)
11. Darganfod coeden fach ar ôl peidio dechrau yfed yng Nghorwen (9)
12. Dichell brawd yn colli rhan o'r ewyllys (4)
13. Tyweirch wedi ei sychu i'w llosgi (4)
14. Anweddu (7)
17. Mae'n ddifys ac yn swnio fel dau neu dri lliidiog (6)
21. Newid o fod yn hylif i fod yn solid (6)
26. Cynrhon Macedonia? Na, yn ormod (7)
27. Aderyn Eryri (4)
30. Ymchwyddiadau yn y môr (6)
31. Heb hwn na 8 i lawr i fod yn ddistaw (3)
37. Amser byr yn y cylch taflu codwm? (4)
41. Offer i wneud i bethau bach ymddangos yn fawr (9)
43. Ymrwymo i briodi (7)
44. Chwant bwyd (5)
45. Ystafell waith yn y tŷ (5)

9. Dillad uchaf i ferched a phobl y colegau (5)
15. Llun pwrpasol er mwyn gwneud y testyn yn gliriach (7)
16. Megis oren neu lemon... (3)
18. ... megis penrhyn Llŷn neu benrhyn Gŵyr (7)
20. 2000 (5)
22. Y metel sydd mewn offer torri gwair (3)
23. Un a roes enedigaeth yn 7 ar draws... (3)
24. ... ac un sy'n gweithio â haearn (3)
25. Gwisg i'r pen (3)
28. Ymlusgiad bach — gelyn y garddwr (8)
29. Gwres y Protestant (3)
33. Ncnfydau ystafelloedd (7)
34. Megis lein trên fach yr 39 i lawr, mae'n rhaid cael lle arbennig i basio (6)
35. Gall Dic Lyn fod yn ystyfnig iawn (6)
36. Gwisg i'r droed a'r goes (5)
40. Wyneb hir gwe pryf copyn? (4)
42. Brenin yr anifeiliaid (3)

I Lawr:

1. Saib, dad! Dyna'r gri (7)
2. Math o ffidil neu grwth (5)
3. Offeryn cerdd — mae'n cyfeirio at ei bwysau! (4)
4. Symudiad cyflym modur mini Lamborghini (6)
5. Pwrpas (5)
6. Dynion â dolur? Na, y rhain sy'n ennill (6)
7. A'i o gae Salem y daw Morfydd? (6)
8. Gweler 31 ar draws (3)

CROESAIR MAI

Derbyniais atebion i groesair Mai gan Jean Hughes-Jones, Rhiw; Catherine A. Jones, Rhiw; Ellen Pritchard, Gam; N. Hughes, Cwm-y-glo; Eluned Jones, Trefor; Rosemary Williams, Tregarth; Mair Evans, Caernarfon; E.E. Roberts, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; M.P. Jones, Clynnog; G. Gill, Bangor;

DYDDIADUR MEHEFIN

- Llun 5:** **DEINIOLEN.** Cymdeithas Cyfeillion Llandinorwig — Cyfarfod Blynnyddol am 7 o'r gloch.
LLANRUG. Undeb y Mamau — Moes a Phryn.
- Iau 8:** **BRYNREFAIL.** Cymdeithas y Capel — Sgwrs gan y Parch Gareth Maelor Jones.
DEINIOLEN. Gwibdaith y Chwirydd i'r Wybrnant.
- Maw 13:** **LLANRUG.** Gwibdaith Merched y Wawr.
- Mer 14:** **CWM-Y-GLO.** Gyrfa Chwist yn yr Ysgol am 7.30.
BETHEL. Taith Ddirgel Merched y Wawr.
- Gwe 16:** **CAERNARFON.** Bore Coffi yn Ebeneser o 10 hyd 12 dan ofal Pwyllgor Anabl Merched y Wawr yn Arfon.
- Llun 19:** **DEINIOLEN.** Cyfarfod Blynnyddol Merched y Wawr.
- Sul 25:** **DEINIOLEN A'R CYLCH.** Cymdeithas y Beiblau. Gwasanaeth y plant yn Llandinorwig am 2 o'r gloch; Cymanfa yn Ebeneser am 6 o'r gloch gyda Chôr Meibion Dyffryn Peris.
- Mer 28:** **CWM-Y-GLO.** Gyrfa Chwist yn yr ysgol am 7.30.

RHODDION

£51: G.M. Beswick, West Derby, Lerpwl.

£11: Mrs Olwen Ebbrell, Coventry; Mr P.W. Williams, Corby.

£10: David Robert Jones, Craig y Bela, Fachwen; Mr a Mrs Tom Lewis Owen, Corby.

£6: Mrs Menna Byrne, Aberhonddu; Mr J. Evans Hughes, Leicester; Di-enw; Mrs G. McCarthy, Lerpwl; Mr Meurig Owen, Lewisham; Mrs A. Sidebotham, Stockport; Miss Helen Evans Munro, Llanrug; Di-enw eto; Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel, Brynrefail.

£5: Mr Geraint Huws Roberts, Bangor; Mrs B. Williams, Bishop Auckland; Dr R. Fraser Williams, Sale; Mrs A. Williams, Tŷ Newydd, Bethel; Parti Lleisiau Lliwedd; Mrs Doris

Owen, 6 Pentre Helen, Deiniolen; Teulu 'Arwel', Llanrug; Mrs Kate Griffiths, 23 Maes Padarn, Llanberis; Shane a Nia, Padarn View, Llanberis.


£3: Mrs Jenny Davies, Tregaron; Miss M. Griffith, Bangor; Mr a Mrs Owen Jones, Llangefni; Mrs L. Lee, Morfa Bychan; Mrs Mair Parry, Llanllyfni; Mrs J. Williams, Morfa Bychan; Teulu Mrs Olwen Williams, Rhostryfan; Miss Munro, Cynan, Llanrug; Gloria a Bill Pitts, Llanberis.

£1: Mrs M.E. Edwards, Stone; Mrs Alvona Jones, Prestatyn; Mrs Enid Jones, Talysarn; Mr R.W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Mr E. Rowlands, Childer Thornton; Mr Alun T. Williams, Waunfawr; Di-enw.

Mabel Parry, Porthmadog; Nansi Davies, Rhuthun; Jennie Williams, Clynnog; Gwen Davies, Y Wirral; Moreen Lennon, Llanberis; Nan Owen, Llanberis; Dorothy B. Jones, Llanrug; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Ceridwen Williams, Llanrug; Elfed Evans, Llanllechid; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Olwen Owen, Llanberis ac Arwyn Roberts, Llanrug.

Enillydd y mis ydi Mrs G. Gill, Henllys, Ffordd Deiniol, Bangor. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl datrys croesair Mehefin gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Mehefin 19.



PEIDIWCH A GORI AR STORI

**anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa**

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partiön, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044



CHWARAEON

Ai Ef Oedd y Gorau?

Un Tlws o Leiaf!



Llwm iawn fu hi am dlysau i dimau pêl-droed yr ardal. Wedi tymor siomedig llwyddodd Deiniolen i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Gwynedd, ond colli ar giciau o'r smotyn yn erbyn Pwllheli fu eu hanes.

I Waunfawr, wedi eu holl drafferthion eleni y daeth yr unig dlws, a hynny i'r tîm dan 17. Yng Nghynghrair Abercolwyn a'r Cylch y maent yn cystadlu. (Pryd mae awdurdodau Arfon am

sefydlu cynghrair i'r ardal yma d'wedwch!)

Llwyddodd hogia'r Waun i gipio Cwpan y Llywydd a hynny drwy y guro'r ffefrynau, Bae Colwyn ar Forfa Conwy o 2-1. Roedd tîm Bae Colwyn eisoes yn bencampwr y gynghrair a hynny wedi tymor diguro. Saith diwrnod ynghynt roeddynt wedi chwalu'r Waun o 7-2 mewn gêm gynghrair.

Nid felly'r ffeinal. Os bu

Cefais orig hwyliog iawn yng nghwmni dau o gyn chwaraewyr Llanberis yn ddiweddar. Yr achlysur oedd dathlu pen-bwydd Emlyn Davies yn 80 oed.

Awgrym Ken Jones oedd i mi lunio erthygl am Emlyn a oedd, ym marn llawer, yn un o chwaraewyr mwyaf dawnus y Darans.

Un o Lan Conwy yw Emlyn yn wreiddiol, a thra'n ddisgybl yn yr ysgol ym Mae Colwyn dewiswyd ef i dîm dan 15 Sir Ddinbych. Yn amlwg, sylwyd ar ei ddoniau gan iddo arwyddo i dîm Blaenau Ffestiniog yn 15 oed. Wedi un gêm yn unig i'r ail dîm yn Nolgellau yn yr hen *Cambrian Coast League*, dewiswyd ef i'r tîm cyntaf lle bu am dair blynedd hyd nes iddo ymuno â'r Awyrlu ym 1938.

'Inside right' fu Emlyn ar hyd ei yrfa, a diddorol oedd ei ddisgrifiad o'i gêm — chwaraewr 'fetch and carry'. Dewiswyd ef i dîm yr Awyrlu mewn gemau yn erbyn y Fyddin a'r Llynges — timau wrth gwrs oedd yn cynnwys chwaraewyr â phrofiad yng Nghynghrair Lloegr.

Oherwydd rhesymau meddygol daeth o'r Awyrlu ym 1943 a gweithio yng Nghaer. Ni chwaraeodd bêl-droed am 2 flynedd. Yng Nghaer cyfarfu â Gracie, Woodfield, Llanberis a oedd yn nyrsio. Priodwyd y ddau ym 1945 ac yna symud i Lanberis ym 1946. Dechreuodd chwarae i Lanberis yn nhymor 46/47, yn yr hen Gynghrair Cylch Bangor. Soniai Emlyn am safon uchel y gynghrair honno.

i dudalen 22

TLWS YR ECO (Cynradd) 2000

Oes, mae blwyddyn arall wedi hedfan heibio a daeth yn amser paratoi at y 'noson fawr'. Teimlaf bod y gystadleuaeth yma'n tyfu o flwyddyn i flwyddyn a'r safon a'r mwynhad yn gwella. Bu arbrawf y llynedd o gynnal cystadleuaeth pêl-rwyd i'r merched yn llwyddiannus iawn. Ymlaen, felly, â'r trefniadau am eleni. Ar faes Ysgol Gynradd Llanrug y bydd y croeso eto eleni — diolch i reolwyr, prifathro a staff yr ysgol. Y dyddiad pwysig yw **NOS IAU, MEHEFIN 22**.

Bydd y ddwy gystadleuaeth — pêl-droed a pêl-rwyd — yn cydreddeg. Cynhelir pêl-droed ar y cae chwarae a pêl-rwyd ar y ddau gwrth ar fuarth yr ysgol. Yn y timau pêl-droed gall y timau fod yn gymysg, ond rhaid cadw O FEWN YR OEDRAN PRIODOL.

Dyma'r manylion ar gyfer y ddwy gystadleuaeth:

PÊL-DROED: dau oedran — Bl. 3/4; Bl. 5/6; 8 bob ochr, a 2 eilydd (carfan o 10 aelod).

PÊL-RWYD: dau oedran — Bl. 3/4; Bl. 5/6. 7 bob ochr a 2 eilydd (carfan o 9 aelod);

TÂL CYSTADLU: £5 y tîm. (Rhaid ei dalu wrth gyflwyno'r ffurflen gystadlu.)

FFURFLENNI CYSTADLU. Dim ond

y rhain a dderbynnir a rhaid eu dychwelyd i mi erbyn **MEHEFIN 15**. Ni dderbynnir unrhyw enwau cystadleuwyr dros y ffôn, ac yn sicr ddim ar noson y cystadlu. Bydd trefn

y noson wedi'i wneud ymlaen llaw ac ni ellir ei newid ar y noson. **LLUNIAETH YSGAFN:** Bydd lluniaeth wedi'i baratoi gan Gyfeillion Ysgol Llanrug.

TLWS ECO'R WYDDFA (CYNRADD) NOS IAU, 22 MEHEFIN, 2000 YSGOL GYNRADD LLANRUG

Y chwarae i ddechrau'n brydlon am 5.30 p.m.

TLWS YR ECO — PÊL-DROED

ENW'R TÎM _____

PERSON Â GOFAL _____

OEDRAN: Bl. 3/4 _____ Bl. 5/6 _____ (Ticiwch y man priodol)

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: OES/NAGOES Swm £ _____

TLWS YR ECO — PÊL-RWYD

ENW'R TÎM _____

PERSON Â GOFAL _____

OEDRAN: Bl. 3/4 _____ Bl. 5/6 _____ (Ticiwch y man priodol)

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: OES/NAGOES Swm £ _____

★ Y ffurflen i'w dychwelyd i **RICHARD LLOYD JONES, 5 Y DDÔL, BETHEL** dim hwyrach na **NOS IAU, 15 MEHEFIN YNGHYD Â'R TÂL PERTHNASOL**



Rhwng 1949 a 1952 roedd Llanberis yn Bencampwr Cynghrair y Gogledd (Adran y Gorllewin) dair gwaith, ac yn ail i'r Felinheli unwaith. Ym marn yr 'hen stagers' dyma dîm gorau Llanberis. Fel un a ddioddefodd dan gryfder tîm canol y 60au, buasai gêm rhwng y ddau dîm yn amlwg yn glincar.

Cofia Emlyn am ddoniau Tommy Morran ar yr asgell a'r cawr o 'centre forward' Andrew Griffiths o Ddinorwig.

'Gallwn ffendio Andrew ar y cae hefo mwgwd am fy mhen,' oedd barn Emlyn.

Cafodd Emlyn ambell gêm i

i dudalen 22